# Cwestiynau Ysgrifenedig a atebwyd rhwng 13 a 20 Tachwedd 2003

[R] yn nodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.
[W] yn nodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.

## Cynnwys


2 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Ddiwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon

3 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth

11 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes

15 Cwestiynau i'r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad

16 Cwestiynau i'r Gweinidog Cyllid

19 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

26 Cwestiynau i'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Ddiwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon

### Strategaeth Seiclo

**John Griffiths:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar strategaeth Llywodraeth y Cynulliad ar gyfer seiclo yng Nghymru? (WAQ29791)

**Y Gweinidog dros Ddiwylliant, y Gymraeg a Chwaraeon (Alun Pugh):** Yr wyf yn edrych ymlaen at strategaeth y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth ar gerdded a seiclo yng Nghymru, sydd i gael ei chyhoeddi yn y dyfodol agos. Mae cysylltiadau cryf o fewn fy strategaeth i, 'Dringo'n Uwch', ac mae'r synergedd rhyngddynt yn rhywbeth y mae angen inni wneud y mwyaf ohono dros amser.

Bydd seiclo, cerdded a nofio yn amcanion allweddol y byddwn am eu hyrwyddo gan fod modd i bobl o bob oedran, o'r naill ryw a'r llall, gymryd rhan ynddynt. Ymddengys yn amser priodol i drafod seiclo a'r cysylltiadau polisi cyffredin gan fy mod yr wythnos hon yn agor y felodrom seiclo cenedlaethol gwych yn eich etholaeth yn Nwyrain Casnewydd. Yr wyf yn falch hefyd y bydd Cyngor Chwaraeon Cymru yn darparu cyllid ychwanegol i Undeb Seiclo Cymru yn y dyfodol, a fydd yn help i ddatblygu'r gamp ymhellach.

### Hyrwyddo Chwaraeon sy'n Cynnwys mwy o Bobl ag Anableddau

**Val Lloyd:** Sut mae'r Gweinidog yn ceisio hyrwyddo chwaraeon sy'n cynnwys mwy o bobl ag anableddau yng Nghymru? (WAQ29793)

**Alun Pugh:** Mae fy strategaeth ar chwaraeon a gweithgareddau hamdden egnïol, 'Dringo'n Uwch', yn tanlinellu pwysigrwydd hybu cynnwys mwy o bobl ag anableddau mewn chwaraeon a gweithgareddau hamdden egnïol. Er enghraifft, cynigir yn benodol fod Estyn yn rhoi cyngor ynglŷn â'r arferion gorau o ran darparu addysg gorfforol a chwaraeon ysgol ar gyfer plant ag anabledd.

Yn amlwg, mae'r broses ymgynghori wedi'i bwriadu i atgyfnerthu ymhellach y sylfaen strategol ar gyfer sicrhau mwy o gyfranogi. Byddwn yn cynnal uwch-gynhadledd am chwaraeon a gweithgareddau hamdden egnïol yn gynnar yn y flwyddyn newydd, lle bydd materion anabledd yn un o'r pynciau trafod allweddol.

### Arian ar gyfer y Celfyddydau y Tu Allan i Gaerdydd

**Peter Black:** Faint o'r arian ychwanegol ar gyfer y celfyddydau y tu allan i Gaerdydd fydd yn cael ei wario yng Ngorllewin De Cymru o ganlyniad i'r cymhorthdal a roddir i Ganolfan Mileniwm Cymru? (WAQ29796)

**Alun Pugh:** Yr oeddwn yn falch o gyhoeddi mewn Cyfarfod Llawn ym mis Hydref fy mod yn darparu'r gronfa hon drwy Gyngor Celfyddydau Cymru o'r adeg y bydd Canolfan Mileniwm Cymru yn agor fis Tachwedd y flwyddyn nesaf. Bydd y gronfa yn dechrau ar £250,000 yn y flwyddyn ariannol nesaf ac yn cynyddu hyd at y £2 filiwn llawn y flwyddyn erbyn 2006-07.

Nid oes penderfyniadau wedi cael eu gwneud eto, wrth gwrs, ynghylch dyfarniadau unigol o'r gronfa ond byddaf yn gwneud yn siŵr fod pob rhan o Gymru, y tu allan i Gaerdydd, yn elwa o'r cyllid ychwanegol hwn.

Caiff y rhan fwyaf o'r cyllid newydd ei wario ar roi mwy o gynnyrch o ansawdd uchel ar lwyfannau ein theatrau canolig eu maint—meithrin y theatr frodorol yng Nghymru, cefnogi ein llenorion, ein cyfarwyddwyr a'n hactorion. Bydd gweddill y cyllid yn mynd i gefnogi canolfannau bach ar hyd a lled Cymru. Bydd micro-berfformiadau mewn canolfannau llai ac, yn wir, mewn canolfannau anhraddodiadol

megis canolfannau cymuned yn nodwedd allweddol. Byddaf yn disgwyl i ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf fod â rhan amlwg yn y rhaglen hon.

### Cyllideb y Gweinidog

**Alun Cairns:** Beth yw'r tanwariant neu'r gorwariant diweddaraf/tebygol o ran cyllideb y Gweinidog ar gyfer y flwyddyn ariannol bresennol? (WAQ29822)

**Alun Pugh:** Mae'r lefelau gwario cyfredol yn dangos y bydd y gwariant dros y flwyddyn lawn yn agos at y ddarpariaeth derfynol yn y gyllideb ar gyfer fy mhortffolio i.

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth

### Prosiect sy'n Gysylltiedig â Chyllid Awdurdod Datblygu Cymru

**Leighton Andrews:** A wnaiff y Gweinidog restru pob prosiect sy'n gysylltiedig â chyllid Awdurdod Datblygu Cymru yn etholaeth y Rhondda? (WAQ28972)

*Ateb terfynol yn dilyn ateb dros dro a roddwyd ar 15 Hydref 2003.*

**Y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth (Andrew Davies):** Maent wedi eu rhestru isod.

**Prosiectau adennill tir:**
Cwlfer Pendyrus—gwaith atgyweirio
Pwll glo'r Maerdy, cam 2—astudiaeth
Tomenni Pendyrus/Llanwynno—dylunio

**Prosiectau datblygu ardal:**
Y Porth: canolfan ddysgu a menter amlgyfrwng
(Rhwydwaith) dysgu/menter allgymorth: dysgu seiliedig ar dechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu i gymunedau o dan anfantais
Treherbert: astudiaeth ddichonoldeb ar ehangu cwmni
Treorci: strategaeth canol y dref

**Prosiectau cymorth busnes:**
Mae'r Awdurdod Datblygu wedi gweithio gyda chwmnïau yn y mannau a ganlyn ar brosiectau ehangu a diogelu: Abergorci, Maerdy, Blaenrhondda, a Threwiliam.

**Cymorth menter:**
**Potentia**
Unigolion a gynorthwywyd: 71 Rhondda Cynon Taf, 15 y Rhondda
Cwmnïau newydd wedi dechrau: 13 Rhondda Cynon Taf, tri y Rhondda
Swyddi a grëwyd: 33 Rhondda Cynon Taf, 13 y Rhondda

**Hyrwyddo diwylliant menter:**
Cyrhaeddodd y wasg 50,000 o bobl sawl gwaith dros y flwyddyn ddiwethaf, a chyrhaeddwyd 80,000 o bobl ar bob cam drwy'r radio lleol. (Dyma ddadansoddiad o'r wasg)

| Papur newydd | Cylchrediad | Darllenwyr |
|---|---|---|
| Rhondda Leader | 13,356 | 38,690 |
| SW Echo | 2,238 | 7,705 |
| Western Mail | 1,364 | 5,020 |
| Cyfanswm | 16,958 | 51,415 |

(Yn anffodus, nid oes dadansoddiad ar gael ar gyfer radio lleol.)

Recriwtiwyd tri delfryd ymddwyn yn ardal y Rhondda, a chyrhaeddwyd 2,658 o ddisgyblion drwy'r ysgolion.

**Menter Merched Cymru**
Busnesau a gynorthwywyd: 9 Rhondda Cynon Taf, dau y Rhondda
Cwmnïau newydd wedi dechrau: 10 Rhondda Cynon Taf
Swyddi a grëwyd: 26 Rhondda Cynon Taf
Rhaglen cwmnïau newydd yn dechrau

Mae'r Awdurdod Datblygu yn gweithio gyda'r Gymdeithas Gwarchod Plant, sydd wedi cynorthwyo wyth o unigolion sy'n dymuno sefydlu busnes fel gwarchodwyr plant, ac mae un ohonynt wedi cofrestru hyd yma.

**Prosiect cydraddoldeb i fusnesau bach a chanolig eu maint**
Mae'r prosiect wedi cynorthwyo un cwmni i ddyfeisio arferion cyfle cyfartal a'u rhoi ar waith.

**Blas ar Fentro**
Yn cael cymorth: 23 Rhondda Cynon Taf
Cynghorwyd: 20 Rhondda Cynon Taf, 16 y Rhondda
Busnesau newydd: tri Rhondda Cynon Taf, tri y Rhondda
Swyddi: tri Rhondda Cynon Taf, tri y Rhondda

**Technoleg ac arloesi:**
**Know-How Cymru**
Busnesau a gynorthwywyd: dau Rhondda Cynon Taf

**Rhaglen datblygu technoleg Amcan 1**
Busnesau a gynorthwywyd: 9 Rhondda Cynon Taf, un y Rhondda
Cyllid a sicrhawyd: £47,000 Rhondda Cynon Taf, £10,000 y Rhondda
Swyddi a grëwyd: 13 Rhondda Cynon Taf
Swyddi a ddiogelwyd: 11 Rhondda Cynon Taf

**Cynghorwyr arloesi a thechnoleg**
Busnesau a gynorthwywyd: pump Rhondda Cynon Taf
Cyllid a sicrhawyd: £79,000 Rhondda Cynon Taf
Swyddi a grëwyd: tair Rhondda Cynon Taf
Swyddi a ddiogelwyd: 19 Rhondda Cynon Taf

**IP Wales**
Busnesau a gynorthwywyd: 13 Rhondda Cynon Taf, tri y Rhondda
Cyllid a sicrhawyd: £2,000 Rhondda Cynon Taf
Swyddi a grëwyd: un Rhondda Cynon Taf
Swyddi a ddiogelwyd: un Rhondda Cynon Taf

**Rhwydwaith Arloeswyr Cymru**
Unigolion a gynorthwywyd: dau Rhondda Cynon Taf

**Foresight**
Busnesau a gynorthwywyd: 16 Rhondda Cynon Taf, un y Rhondda

**Rhaglen technoleg y dyfodol**
Busnesau a gynorthwywyd: wyth Rhondda Cynon Taf
Canolfannau rhanbarthol rhagoriaeth gweithgynhyrchu
Cyllid a sicrhawyd: £5,000 Rhondda Cynon Taf

**Technoleg cyfryngau:**
**Cyfle Cymru**
Busnesau a gynorthwywyd: 124 Rhondda Cynon Taf, 29 y Rhondda
Adolygiadau technegol: 52 Rhondda Cynon Taf
Ymholiadau technegol: 10 Rhondda Cynon Taf

**Ôl-gerbyd symudol cymdeithas wybodaeth Cymru**
Swyddi a grëwyd: dwy Rhondda Cynon Taf
Swyddi a ddiogelwyd: tair Rhondda Cynon Taf

**Sgrîn**
Busnesau a gynorthwywyd: 4 Rhondda Cynon Taf

**Canolfannau technoleg gwybodaeth**
Adolygiadau technegol: 14 Rhondda Cynon Taf, 6 y Rhondda
Ymholiadau technegol: 35 Rhondda Cynon Taf
Swyddi a ddiogelwyd: un Rhondda Cynon Taf

**Comisiwn Sgrîn Cymru**
Busnesau a gynorthwywyd: tri Rhondda Cynon Taf
Cyfleoedd a grëwyd: tri Rhondda Cynon Taf
Buddsoddiad sector preifat: £200k Rhondda Cynon Taf

**Cynllun cymhorthdal lloeren**
Busnesau a gynorthwywyd: tri Rhondda Cynon Taf, dau y Rhondda

**Bwyd:**
Grantiau marchnata prosesu
Swyddi a grëwyd: 13 Rhondda Cynon Taf
Buddsoddiad sector preifat: £682k Rhondda Cynon Taf

**Cyswllt Ffermio**
Nifer y cofrestriadau: tri Rhondda Cynon Taf
Nifer y cynlluniau datblygu busnes fferm sydd wedi'u cwblhau: dau Rhondda Cynon Taf
Nifer y ceisiadau grant: un Rhondda Cynon Taf
Nifer y grantiau a gymeradwywyd: tri Rhondda Cynon Taf

**Adolygiadau a gwasanaeth ymgynghorol busnesau bwyd:**
Y Porth (un cwmni): Cymorth bwyd diagnostig arbenigol a chymorth datblygu masnach.
Treorci (un cwmni): Cymorth bwyd diagnostig arbenigol a chymorth datblygu masnach.

**Cyllid Cymru:**
Benthyciadau wedi eu rhoi i gwmnïau yn y mannau canlynol:
Tonypandy: tri buddsoddiad
Y Porth: un buddsoddiad
Pentre: un buddsoddiad
Glyn Rhedynog: dau fuddsoddiad.

**Cyllid Mesanîn:**
Gelli: un buddsoddiad.

**Equity Finance:**
Glyn Rhedynog: dau fuddsoddiad
Tonypandy: un buddsoddiad.

**Menter:**
Digwyddodd y gweithgareddau canlynol yn y Rhondda Fawr, ardaloedd codau post CF39 i CF42, Trehafod, Porth i Flaenrhondda, dros y 12 mis diwethaf:

- cynorthwywyd pum person i ddechrau busnesau newydd, yn amrywio o fasnachwyr unigol i bartneriaethau a chwmnïau corfforedig.
- Cynorthwywyd pum person di-waith i gael gwaith, gyda'r uchod, o dan y fenter masnachwyr unigol.

**Datblygu busnesau:**
**Accelerate Cymru:** Datblygu clwstwr modurol i Gymru gyfan, wedi'i seilio ar 35 o gadwyni cyflenwi yng Nghymru, gan recriwtio oddeutu 250 o gwmnïau i ddod yn aelodau. Byddai pob cadwyn a chwmni'n cael cymorth diagnostig ac unigol drwy ymgynghorwyr trydydd parti, a byddai gweithgareddau gweithdy yn darparu cefnogaeth iddynt.
Tonypandy (tri chwmni), Porth (un cwmni), Glyn Rhedynog (saith cwmni).

**Rhwydweithiau 2002:** yn darparu dealltwriaeth o'r arferion gorau a'r arfau a'r technegau sy'n ofynnol i'w rhoi ar waith yn effeithiol, a chyflwyno hynny i rwydwaith o gwmnïau.
Glyn Rhedynog (un cwmni).

**Datblygu adweithiol:** Darparu gwasanaeth ymgynghorol arbenigol i helpu cwmnïau i rhoi methodolegau arferion gorau, fel y maent wedi'u dynodi, ar waith er mwyn cadw busnes sydd o dan fygythiad neu gaffael cyfleoedd busnes newydd. Tonypandy (pedwar cwmni), Pentre (un cwmni), Treorci (un cwmni), Glyn Rhedynog (un cwmni).

**Cyfeiriad strategol:** Cynorthwyo datblygu strategol a hwyluso newid strategol mewn busnesau. Cymorth i fynd ati'n rhagweithio i geisio marchnadoedd newydd. Gweithgarwch drwy Gymru gyfan. Cymorth unigol sy'n gwbl benodol i'r cwmni dan sylw. Treorci (un cwmni).

**Ennill busnes:** Cynorthwyo datblygu o ran gwerthu a marchnata mewn busnesau. Cymorth diagnostig ac unigol gyda gweithgareddau gweithdy yn gefn. Glyn Rhedynog (un cwmni), Treorci (dau gwmni).

**Canfod ffynonellau:** Dynodi (yn rhagweithiol ac adweithiol) gyfleoedd cyflenwi penodol a nodi cyflenwyr addas o Gymru. Rheoli cronfa ddata i gynorthwyo'r gwaith uchod. Glyn Rhedynog (dau gwmni).

**Partneriaeth carbon isel:** Prosiect i gael ei gyflenwi gan y sector preifat sy'n darparu £5.24 miliwn ar gyfer y prosiect. Cynhelir archwiliadau ynni cychwynnol, yna cynhelir archwiliadau ynni manwl a gwneir darpariaeth gyda chymorth grant a chaiff offer ei osod. Treorci (tri chwmni).

**Gwasanaeth cynghori ym maes gweithgynhyrchu:** Darparu cyngor gweithgynhyrchu arbenigol, gan ddefnyddio llinell gymorth ffôn, seminarau codi ymwybyddiaeth a chymorth diagnostig ac ymarferol un i un. Glyn Rhedynog (dau gwmni), y Rhondda (dau gwmni), Tonypandy (dau gwmni).

**@Wales:** Gweithio gyda'r diwydiant cyfryngau digidol i ddatblygu gwybodaeth a chwmpas y diwydiant ymhellach. Tonypandy (un cwmni).

**Cymorth Arloesi a Thechnoleg:** Tonypandy (pum cwmni), Treorci (chwe chwmni), Porth (un cwmni), Pentre (un cwmni), Glyn Rhedynog (tri chwmni).

## Cyllideb Awdurdod Datblygu Cymru

**Lynne Neagle:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ba ganran o gyllideb Awdurdod Datblygu Cymru gaiff ei gwario ar ardaloedd gwledig a pha ganran o'i arian gaiff ei gwario ar fusnes-amaethyddol? (WAQ29593)

**Andrew Davies:** Yn 2002-03, gwariwyd tua 20 y cant o gyllideb weithredol yr awdurdod yn yr ardaloedd gwledig, yn cynnwys gwariant ar weithgareddau megis y gyfarwyddiaeth fwyd, a gweithgareddau cymorth busnes yn y Canolbarth. Dros y blynyddoedd, bydd y gwariant yn amrywio yn ôl yr angen a'r cyfleoedd, ond ar gyfartaledd mae oddeutu 25 y cant i 30 y cant o gyllideb yr awdurdod. Yn 2002-03, yr oedd gwariant yr awdurdod ar gymorth uniongyrchol i fusnes-amaethyddol ar draws Cymru yn rhyw £22 miliwn—oddeutu 6 y cant o gyllideb lawn yr awdurdod.

**Cymunedau Cyfle**

**Lynne Neagle:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar ba ardaloedd sydd wedi eu diffinio fel 'cymunedau cyfle' mewn perthynas â gwaith Awdurdod Datblygu Cymru? (WAQ29594)

**Andrew Davies:** Mae'r awdurdod yn ymwneud â chymunedau ar draws Cymru gyfan. Mae llawer iawn o adfywio cymunedol yn mynd rhagddo ac mae'r hyn a gynigir yn amrywio yn ôl yr amgylchiadau yn lleol. Mae'r dull o weithio drwy ddefnyddio'r pecyn cymunedol yn cael ei fabwysiadu'n eang yn rhanbarthau'r Canolbarth, y Gogledd a'r De-orllewin erbyn hyn, ac mae gwaith yn cael ei wneud i ganfod sut y gellid ei gyflwyno yn y De-ddwyrain.

**Ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf**

**Lynne Neagle:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad am ba ganran o gyllideb Awdurdod Datblygu Cymru gaiff ei gwario mewn ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf? (WAQ29595)

**Andrew Davies:** Caiff ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf eu dynodi ar lefel ward. Nid yw'r awdurdod felly yn gallu darparu ffigurau gwariant manwl. Fodd bynnag, mae'r cynllun busnes a gymeradwywyd gan yr awdurdod ar gyfer 2003-04, i gynorthwyo cymunedau gwledig a threfol, yn clustnodi rhyw £50 miliwn i gyd ar draws Cymru, oddeutu 13.6 y cant o gyllideb lawn yr awdurdod.

**Phartneriaethau Cymunedau yn Gyntaf**

**Lynne Neagle:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad sy'n dweud lle y mae Awdurdod Datblygu Cymru yn gweithio gyda phartneriaethau Cymunedau yn Gyntaf? (WAQ29596)

**Andrew Davies:** Nid yw'r awdurdod wedi creu unrhyw drefniadau gweithio ffurfiol gyda phartneriaethau Cymunedau yn Gyntaf tra'u bod yn y broses o gael eu sefydlu, er bod ymwneud ar lefel leol yn mynd rhagddo, drwy berthnasau gwaith agos gyda'r awdurdodau unedol a phartneriaethau eraill.

**Creu Ffordd Ddeuol rhwng Sanclêr a Hwlffordd**

**Rhodri Glyn Thomas:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar wneud y ffordd rhwng Sanclêr a Hwlffordd yn Sir Gaerfyrddin yn ffordd ddeuol? (WAQ29761)

**Andrew Davies:** Mae cynllun i wella'r A40 rhwng Sanclêr a Hwlffordd wedi ei gynnwys yng ngham 2 blaenraglen y cefnffyrdd a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2002. Yr oedd y flaenraglen yn cadarnhau bod angen rhagor o wybodaeth am oblygiadau amgylcheddol ffyrdd o wahanol safonau, cyn y câi penderfyniadau terfynol ei wneud am safonau'r cerbydlonydd. Penodwyd ymgynghorwyr ym mis Gorffennaf 2002 i dywys y broses hon ymlaen. Maent wedi cynnal arolygon traffig, yn cynnwys faint o amser a gymer siwrneiau, wedi adolygu cyflwr y ffordd bresennol, ac wedi gofyn am farn busnesau lleol. Mae ymchwiliadau ac asesiadau amgylcheddol helaeth ar y gweill ar hyn o bryd. Ymgynghorwyd yn rheolaidd â swyddogion o gynghorau sir Penfro a Chaerfyrddin, Cyngor Cefn Gwlad Cymru, Asiantaeth yr Amgylchedd a Pharc Cenedlaethol Arfordir Sir Benfro. Mae opsiynau yn cael eu datblygu ar gyfer y cynllun a byddir yn ymgynghori â'r cyhoedd ynghylch y cynigion yn gynnar y flwyddyn nesaf.

### Hawliau Ffotograffwyr

**Rhodri Glyn Thomas:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y ffaith bod Bwrdd Croeso Cymru yn gwrthod cydnabod hawliau ffotograffwyr sy'n arddangos eu gwaith yn eu llyfrgelloedd, wrth drosglwyddo eu gwaith i bobl eraill? (WAQ29762)

**Andrew Davies:** Fel a ddywedais yn fy ateb i OAQ28397 ac OAQ28398, mae'r holl ffotograffwyr sy'n ymgymryd â chomisiynau i Fwrdd Croeso Cymru yn gwneud hynny ar sail memorandwm cytundeb. Mae'r memorandwm hwn yn trosglwyddo pob hawlfraint yn llwyr i'r bwrdd. Gellir defnyddio'r ffotograffau hynny yng nghyhoeddiadau'r bwrdd neu fel arall, gyda chytundeb y bwrdd, ledled y byd. Mae'r memorandwm hefyd yn datgan na fydd y ffotograffydd ar unrhyw adeg yn mynnu'r hawl i gael cydnabyddiaeth am y ffotograffau (cael ei nodi fel yr 'awdur') pan gyhoeddir nhw. Mater gweithredol i'r bwrdd yw hwn, ond os ydych yn ymwybodol o fater neu achos penodol, ond os rhowch y manylion imi byddaf yn codi'r mater gyda'r bwrdd.

### Staff Awdurdod Datblygu Cymru

**Alun Cairns:** Faint o staff a gyflogir ar hyn o bryd gan Awdurdod Datblygu Cymru? (WAQ29806)

**Andrew Davies:** Ar hyn o bryd mae'r awdurdod yn cyflogi 898 o staff, heb gynnwys Cyllid Cymru, sy'n cyflogi 102 o staff. Mae gan yr awdurdod 57 o swyddi gwag a chan Gyllid Cymru dair. Drwyddo draw, mae'r awdurdod, yn cynnwys Cyllid Cymru, yn cyflogi 1,000 o staff ar hyn o bryd tra bo 60 o swyddi'n wag.

### Llygad Busnes

**Alun Cairns:** Pryd y dechreuodd Llygad Busnes weithredu'n ffurfiol? (WAQ29807)

**Andrew Davies:** Dechreuodd gwasanaeth Llygad Busnes weithredu ar 24 Medi 2003.

### Galwadau Ffôn i Llygad Busnes

**Alun Cairns:** Faint o alwadau ffôn y mae Llygad Busnes wedi'u derbyn hyd yma? (WAQ29808)

**Alun Cairns:** A wnaiff y Gweinidog rannu nifer y galwadau ffôn a drosglwyddwyd o Llygad Busnes i bob darparwr prif ffrwd, a'u nodi mewn canrannau? (WAQ29811)

**Andrew Davies:** Dywedir wrthyf gan Awdurdod Datblygu Cymru i ganolfan cysylltiadau genedlaethol Llygad Busnes dderbyn 2,404 o alwadau rhwng 24 Medi a 7 Tachwedd. Nid yw'r ffigur hwn yn cynnwys cleientiaid sydd wedi cysylltu'n uniongyrchol â'u canolfan leol neu sydd wedi cysylltu â'r wefan.

Ar hyn o bryd, dim ond am gost afresymol y gellid darparu gwybodaeth am ddarparwyr prif ffrwd. Byddai'n golygu proses faith o gasglu gwybodaeth â llaw. Disgwylir y bydd gwybodaeth o'r fath ar gael pan fydd y system rheoli cleientiaid yn llwyr weithredol yn y flwyddyn newydd.

### Porth Busnes

**Alun Cairns:** Faint o alwadau ffôn yr oedd y porth busnes yn eu derbyn bob mis? (WAQ29809)

**Alun Cairns:** Faint o alwadau ffôn oddi wrth byrth busnes sydd wedi'u trosglwyddo i ddarparwyr prif ffrwd? (WAQ29810)

**Alun Cairns:** A wnaiff y Gweinidog rannu nifer y galwadau ffôn a drosglwyddwyd o'r porth busnes i bob darparwr prif ffrwd, a'u nodi mewn canrannau? (WAQ29812)

**Andrew Davies:** Dywedir wrthyf gan Awdurdod Datblygu Cymru fod porth cymorth busnes yr Awdurdod Datblygu wedi derbyn 1,333 o alwadau y mis ar gyfartaledd rhwng mis Ionawr 2003 a mis Awst 2003. Nid yw'r ffigur hwn yn cynnwys galwadau a dderbyniwyd o ganlyniad i'r ymgyrch Oherwydd Y Gallwch, gwasanaeth nad yw'n rhan o'r porth ond fod y galwadau hynny hefyd wedi cael eu cyfeirio i'r rhif hwn. Dim ond am gost afresymol y gellid darparu gwybodaeth am nifer y galwadau a drosglwyddwyd i ddarparwyr prif ffrwd. Byddai'n golygu proses faith o gasglu holl gofnodion y galwadau ynghyd â llaw.

### Effeithiolrwydd Llygad Busnes o ran Cost

**Alun Cairns:** Sut y bydd y Gweinidog yn mesur a yw Llygad Busnes yn gost effeithiol? (WAQ29813)

**Andrew Davies:** Byddaf yn monitro perfformiad Llygad Busnes yn erbyn y prif amcan strategol o gynyddu'r niferoedd sy'n manteisio ar wasanaethau cymorth busnes yng Nghymru a chynyddu effeithiolrwydd y gwasanaethau hynny.

### Tendr Cymorth Busnes Twf Uchel

**Alun Cairns:** Beth yw statws diweddaraf y tendr cymorth busnes twf uchel a lansiwyd gan Awdurdod Datblygu Cymru 18 mis yn ôl? (WAQ29814)

**Andrew Davies:** Dywedir wrthyf gan Awdurdod Datblygu Cymru fod y tendro agored wedi ei gwblhau a bod y corff sy'n cael ei ffafrio yn destun proses diwydrwydd priodol ar hyn o bryd.

### Tendr Cymorth Busnes Twf Uchel

**Alun Cairns:** Faint o fusnesau y rhagwelir y bydd y tendr cymorth busnes twf uchel yn ymdrin â hwy? (WAQ29815)

**Alun Cairns:** Ar ba sail y mae'r nifer targed o fusnesau i'w cefnogi o dan y tendr cymorth busnes twf uchel wedi'i gyfrifo? (WAQ29816)

**Andrew Davies:** Yr wyf ar ddeall gan Awdurdod Datblygu Cymru mai 455 o fusnesau dros oes y rhaglen yw'r nifer sy'n cael ei ragweld. Mae hynny'n cynrychioli asesiad llinell sylfaen gan yr awdurdod o'r nifer o fusnesau a fyddai'n elwa, o ystyried yr adnoddau sydd ar gael a blaenoriaethau eraill.

### Menter Cymorth Busnes Twf Uchel

**Alun Cairns:** Sut y bydd y Gweinidog yn sicrhau dewis o ddarparwyr ar gyfer busnesau o fewn y fenter cymorth busnes twf uchel? (WAQ29817)

**Alun Cairns:** Sut y mae'r Gweinidog yn bwriadu cyflwyno cystadleuaeth o fewn y fenter cymorth busnes twf uchel? (WAQ29818)

**Andrew Davies:** Dywedir wrthyf gan Awdurdod Datblygu Cymru fod y broses dendro agored ar gyfer y rhaglen twf uchel wedi denu diddordeb oddi wrth amrywiaeth eang iawn o ddarparwyr gwasanaeth, yn bennaf o'r sector preifat. Mae'r awdurdod yn gwbl fodlon y gall y corff y mae'n ei ffafrio ddarparu'r dewis digonol i gwsmeriaid busnes sy'n ofynnol.

### Cyllideb y Gweinidog

**Alun Cairns:** Beth yw'r tanwariant neu'r gorwariant diweddaraf/tebygol o ran cyllideb y Gweinidog ar gyfer y flwyddyn ariannol bresennol? (WAQ29821)

**Andrew Davies:** Mae'r lefelau gwario cyfredol yn dangos y bydd y gwariant dros y flwyddyn lawn yn agos at y ddarpariaeth derfynol yn y gyllideb ar gyfer fy mhortffolio i.

**Arian Cyfatebol**

**Alun Ffred Jones:** Ymhellach at ei ateb i'r cwestiwn ar y Ffordd i Ffyniant a roddwyd yn y cyfarfod llawn ar 5 Tachwedd, a wnaiff y Gweinidog enwi ffynhonnell yr 80 y cant o arian cyfatebol sy'n dod o'r tu allan i'r cronfeydd arian cyfatebol? (WAQ29841)

**Alun Ffred Jones:** A wnaiff y Gweinidog enwi'r holl gronfeydd a ddefnyddir ar gyfer arian cyfatebol y cronfeydd strwythurol Ewropeaidd? (WAQ29842)

**Andrew Davies:** Ar gyfer rhaglen cronfeydd strwythurol Ewrop rhwng 2000 a 2006, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi creu tair ffynhonnell benodol i ddarparu arian cyfatebol os na fydd ffynonellau eraill ar gael. Y tair yw: y gronfa adfywio leol (yr awdurdodau lleol), y gronfa adfywio leol (y sector cymunedol a gwirfoddol) a'r Ffordd i Ffyniant.

Yn ychwanegol at y rhain, mae llinellau sylfaen eraill o fewn rhaglenni Llywodraeth y Cynulliad ar gael fel arian cyfatebol, sy'n cynnwys sawl corff cyhoeddus a noddir gan y Cynulliad, megis Awdurdod Datblygu Cymru a Bwrdd Croeso Cymru. Ar ben hynny, mae ffynonellau arian cyfatebol eraill yn y sector cyhoeddus ehangach ac yn sector preifat. Nid yw'n bosibl nodi'r holl ffynonellau arian cyfatebol hyn, gan fod cynifer ohonynt a'u bod mor amrywiol.

**Grant Cymorth Rhanbarthol Dewisol**

**Peter Black:** Pa bryd y rhoddwyd y grant cymorth rhanbarthol dewisol ar safle Lloyds TSB ym Mhencoed, faint oedd y grant, pa amodau oedd ynghlwm wrtho, ac o dan ba amgylchiadau y gellid adfachu'r grant yn ôl? (WAQ29876)

**Andrew Davies:** Cynigiwyd £1,500,000 o gymorth rhanbarthol dewisol i Lloyds TSB, Pencoed, i greu dros 400 o swyddi newydd, a chyhoeddwyd hynny yn Nhueddiadau'r Farchnad Lafur, Ionawr 2003, ar ôl i'r rhandaliad grant cyntaf gael ei dalu. Mae'r cynnig yn ddarostyngedig i amodau safonol, sy'n cynnwys cynnal y buddsoddiad cyfalaf a nifer y gweithwyr ac mae darpariaeth ynddynt i adennill y grant yn gyfan gwbl neu'n rhannol os na fodlonir amodau'r grant. Mae amodau'r grant yn sefyll un ai am gyfnod o bum mlynedd ar ôl y taliad grant cyntaf neu am gyfnod o 18 mis ar ôl y taliad grant terfynol, pa un bynnag yw'r hwyaf. Yn yr achos neilltuol hwn, mae'r amodau yn sefyll tan 2007.

**Diogelwch Traffig yn Sir Faesyfed**

**Nick Bourne:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar ddiogelwch traffig yn Sir Faesyfed? (WAQ29914)

**Andrew Davies:** Caiff diogelwch ar gefnffyrdd Sir Faesyfed ei wella yn sgîl cwblhau'r cynllun cyfredol i ledu a sythu'r A483 yn Esgairdraenllwyn a hefyd yn sgîl cwblhau'r cynlluniau hynny ar yr A470 sydd wedi'u hamlinellu ym mlaenraglen y cefnffyrdd, hynny yw, Llanfair-ym-Muallt (yn rhannol yn Sir Faesyfed): Cwmbach i'r Bontnewydd ar Wy a Rhaeadr Gwy. Mae ein rhaglen gynnal a chadw barhaus hefyd yn cyfrannu at ddiogelwch drwy wella'r wynebau rhedeg, uwchraddio arwyddion a llinellau, adnewyddu cyrbiau a phalmentydd, gwella'r draeniad a mesurau eraill cyffelyb.

Cyfrifoldeb Cyngor Sir Powys yw mesurau diogelwch ar ffyrdd ar wahân i'r cefnffyrdd. Er 2000, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi dyrannu £979,000 i'r cyngor i'w helpu i gyflawni cynlluniau diogelwch y ffordd ar ffyrdd lleol ac i weithredu yn unol â'r strategaeth diogelwch ar y ffyrdd i Gymru.

## Cwestiynau i’r Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes

### Bwrsariaethau i Fyfyrwyr ym Maes Gwaith Cymdeithasol

**Leighton Andrews:** A wnaiff y Gweinidog archwilio’r cyllid sydd ar gael ar gyfer bwrsariaethau i fyfyrwyr ym maes gwaith cymdeithasol yng Nghymru? (WAQ29646) ***Trosglwyddwyd i’w ateb gan y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol.***

*Ateb terfynol yn dilyn yr ateb dros dro a roddwyd ar 14 Tachwedd 2003.*

**Y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (Jane Hutt):** Mae Jane Davidson AC, y Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes, wedi gofyn imi ysgrifennu atoch yn uniongyrchol ynglŷn â’r cwestiwn uchod. Daw’r mater hwn o fewn fy mhortffolio i ac mae a wnelo’n uniongyrchol â’r gwaith sy’n cael ei wneud i ddiwygio addysg a hyfforddiant.

Cyhoeddais fy mwriad i adolygu a diwygio hyfforddiant a chymwysterau gwaith cymdeithasol yng Nghymru ym mis Mehefin 2001 ac, ers hynny, yr ydym wedi bod yn gweithio gyda’n partneriaid yn y sector i weithredu hyfforddiant ar lefel gradd yng Nghymru o 2004. Bydd hyfforddiant ar lefel gradd yn cael ei weithredu yn yr Alban a Gogledd Iwerddon hefyd yn 2004 ond, yn Lloegr, mae’r newidiadau yn cael eu gweithredu o fis Medi 2003.

Un agwedd allweddol o’r gwaith i ddiwygio’r hyfforddiant fu adolygu’r cyllid i fyfyrwyr ar gyfer y radd newydd er mwyn rhoi sylw i’r annhegwch yn y system gyfredol. Y trefniadau cyllido ar gyfer myfyrwyr gwaith cymdeithasol ar hyn o bryd yw bod myfyrwyr ar gyrsiau diploma ôl-radd mewn gwaith cymdeithasol yn gymwys i gael bwrsariaethau, a ariennir gan gartrefwlad y myfyriwr, ac a weinyddir ar hyn o bryd gan y Cyngor Gofal Cymdeithasol Cyffredinol. Nid yw graddedigion sy’n dewis astudio ar gyrsiau gradd yn gymwys i gael bwrsariaethau ôl-radd.

Mae myfyrwyr ar gyrsiau diploma di-radd/gradd mewn gwaith cymdeithasol sy’n byw yng Nghymru fel arfer yn gymwys i gael y cymorth prif ffrwd i fyfyrwyr, megis benthyciadau myfyrwyr a help gyda’r ffioedd hyfforddi. Efallai y byddant hefyd yn gymwys i gael grant dysgu’r Cynulliad. Gallai llawer o fyfyrwyr sydd â chyfrifoldebau teuluol ac ymrwymiadau eraill fod yn gymwys hefyd i gael buddion eraill, ond nid oes cyllid penodol ychwanegol ar gael i’r myfyrwyr hyn.

Cytunais ym mis Rhagfyr 2002 ar fodel i ariannu myfyrwyr ar y radd newydd sydd, fel arfer, yn byw yng Nghymru, ni waeth ymhle y maent yn astudio. Byddwn yn cyflwyno’r cynllun newydd hwn yn 2004, pan roddir yr hyfforddiant newydd lefel gradd ar waith. Bydd y cynllun yn darparu cyllid, nad yw’n ddarostyngedig i brawf moddion, i’r holl fyfyrwyr nad ydynt yn cael cefnogaeth cyflogwr. Cyhoeddais fanylion y cynllun ar 30 Medi 2003.

Pan gyflwynir y cynllun yn 2004, caiff ei ymestyn i gynnwys myfyrwyr sydd eisoes yn cael hyfforddiant. Felly, bydd yr israddedigion hynny a ddechrau ar eu hyfforddiant yn 2003 yn cael cyllid yn eu hail flwyddyn astudio, a bydd unrhyw fyfyrwyr ar gyrsiau tair blynedd yn cael cyllid ar gyfer eu blwyddyn olaf.

Hefyd, mae cyllid sydd wedi’i glustnodi wedi cael ei ddarparu i gyflogwyr yng Nghymru er mwyn iddynt gynorthwyo ymgeiswyr sy’n ymgymryd â hyfforddiant gwaith cymdeithasol. Erbyn hyn mae llawer o gyflogwyr wedi sefydlu cynlluniau i hyfforddeion a chynlluniau secondio o ganlyniad i’r cyllid hwnnw.

### Estyn—Argolygaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

**Alun Cairns:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar rôl arolygwyr lleyg sy’n gweithio i Estyn? (WAQ29770)

**Y Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes (Jane Davidson):** Mae arolygwyr lleyg yn gwneud cyfraniad pwysig tuag at y broses arolygu drwy sicrhau bod barn dysgwyr a rhanddeiliaid eraill yn cael ei chymryd i ystyriaeth. Mae'n ofynnol o dan Ddeddf Arolygiadau Ysgolion 1996 fod timau arolygu ysgolion yn cynnwys o leiaf un arolygydd lleyg. Mae'r Ddeddf hefyd yn caniatáu i'r arolygydd lleyg fod yn berson sydd heb brofiad personol o reoli ysgol nac o ddarparu addysg mewn unrhyw ysgol (ac eithrio fel llywodraethwr neu mewn rhyw fodd gwirfoddol arall).

Yng nghyd-destun y ddeddfwriaeth, mater i'r prif arolygydd yw rôl yr arolygydd lleyg. Mae gan y prif arolygydd gyfrifoldeb hefyd i gadw rhestr o'r rheini sy'n gymwys i weithredu fel aelod o dîm arolygu, yn unol â gofynion Atodlen 3 at Ddeddf 1996 (fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998). Mae canllawiau ynglŷn â rôl yr arolygydd lleyg ar gael ar wefan Estyn yn www.estyn.gov.uk. Yn arbennig, mae'r dogfennau sy'n cael eu paratoi i gyd-fynd â chyflwyno'r fframwaith arolygu cyffredin newydd o 2004 yn rhoi'r cefndir o ran cyfansoddiad timau arolygu a rôl aelodau'r tîm, gan gynnwys arolygwyr lleyg.

**Polisi Estyn o Gyfyngu ar Oed**

**Alun Cairns:** Pa gyngor a dderbyniodd y Gweinidog ynglŷn â chyfreithlondeb polisi Estyn o gyfyngu ar oed? (WAQ29771)

**Alun Cairns:** Pa bolisi sy'n bod sy'n ymwneud ag uchafswm oed arolygwyr o fewn Estyn? (WAQ29772)

**Alun Cairns:** Sut y mae uchafswm oed arolygydd yng Nghymru yn cymharu ag uchafswm oed arolygydd yn Lloegr? (WAQ29773)

**Jane Davidson:** Mae telerau ac amodau cyflogaeth Arolygwyr Ei Mawrhydi ac arolygwyr annibynnol, er eu bod yn faterion ar wahân, ill dau yn faterion i'r Prif Arolygydd Addysg a Hyfforddiant. Mae'r prif arolygydd yn adolygu materion o'r fath yn barhaus, a bydd yn barod iawn i ddarparu manylion am y telerau a'r amodau cyfredol ar gyfer y naill gategori a'r llall o arolygwyr.

**Rhaglen Beilot Cefnogi'r Blynyddoedd Cynnar**

**Mark Isherwood:** Beth yw'r arferion gorau y mae'r Gweinidog a'i swyddogion yn eu dysgu o raglen beilot cefnogi blynyddoedd cynnar yr Adran dros Addysg a Sgiliau a sut y mae'n fodd i wella'r prosesau a'r gwasanaethau sydd yma? (WAQ29777)

**Mark Isherwood:** Pa gyllid a fydd ar gael gan y Gweinidog ar gyfer cynllun tebyg i raglen beilot cefnogi blynyddoedd cynnar yr Adran dros Addysg a Sgiliau yng Nghymru? (WAQ29778)

**Jane Davidson:** Mae fy swyddogion wedi cwrdd â chynrychiolwyr o raglen beilot cefnogi'r blynyddoedd cynnar a ddatblygodd bedwar adnodd o bwys o ganlyniad i'r rhaglen. Mae dau ohonynt ar gyfer gweithwyr proffesiynol a chanllawiau ymarferol ydynt i gynorthwyo'r gwaith o gyflenwi gwasanaeth i blant anabl. Bydd y pecyn i deuluoedd yn darparu cymorth i bob teulu sydd â phlentyn anabl, tra bo'r protocol monitro ar gyfer teuluoedd sydd â phlentyn byddar. Mae'r swyddogion yn disgwyl ar hyn o bryd i dderbyn copïau o'r rhain i'w gwerthuso.

Yr wyf hefyd wedi gofyn i Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol Pobl Fyddar gyflwyno'r adnoddau hyn i Grŵp Ymgynghorol Cymru ar Anghenion Addysgol Arbennig yn ei gyfarfod nesaf. Byddaf wedyn yn ystyried argymhellion y grŵp ac argymhellion fy swyddogion o ran pa mor addas ydynt i'w defnyddio yng Nghymru. Tan hynny, nid wyf mewn sefyllfa i ddweud pa gyllid fydd ar gael.

Byddwch yn ymwybodol fod y mecanwaith cyllido yng Nghymru yn wahanol i'r hyn a ddefnyddir yn Lloegr. Caiff y rhan fwyaf o'r cyllid ei ddyrannu i'r awdurdodau lleol heb iddo gael ei glustnodi, a mater i'r awdurdodau lleol yw penderfynu ar y blaenoriaethau y maent yn dymuno eu mabwysiadu. Fodd

bynnag, mae'r awdurdodau lleol o dan ddyletswydd i ddarparu addysg addas ar gyfer yr holl blant yn eu hardal. Dylent gynnal asesiad statudol o anghenion pob plentyn sydd ag anawsterau dysgu difrifol a chymhleth o ddwy oed ymlaen, a chyn dwy oed lle bo rhieni'r plentyn yn gofyn am hynny.

### Cynllun Gweithredu Prydau Ysgol

**Val Lloyd:** A oes gan y Gweinidog unrhyw gynlluniau i sefydlu panel arbenigol i baratoi cynllun gweithredu prydau ysgol i gefnogi mentrau presennol, fel sydd wedi'i weithredu yn yr Alban? (WAQ29820)

**Jane Davidson:** Nid oes gennyf gynlluniau i wneud hynny ar hyn o bryd. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cydnabod bod deiet da yn bwysig o ran perfformiad yn yr ysgol ac iechyd. Yr ydym yn benderfynol o helpu i sicrhau, cynnal a gwella iechyd pobl ifanc. Mae Rheoliadau Addysg (Safonau Maeth Cinio Ysgol) (Cymru) 2001 yn pennu'r safonau maeth gofynnol y mae'n rhaid i'r awdurdodau addysg lleol a'r ysgolion gydymffurfio â nhw wrth ddarparu ciniawau ysgol. Mae canllawiau ategol a gyhoeddwyd yn gynharach eleni yn rhoi cyngor ynglŷn â chyrraedd y safonau hynny. Mae'r canllawiau hefyd yn cynnwys cyngor am ddeiet iach, darparu bwyd iach y mae pobl ifanc yn ei fwynhau, a ffyrdd o wella'r gwasanaeth prydau ysgol ac annog disgyblion i'w ddefnyddio. Mae'r rheoliadau a'r canllawiau yn ffrwyth ymgynghori helaeth gyda'r partïon sydd â buddiant yn y mater.

Mae'r canllawiau hefyd yn annog ysgolion i sefydlu trefniadau talu a threfniadau eraill sy'n sicrhau nad yw disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn cael eu stigmateiddio. Mae defnyddio cardiau sganio i ddelio â thaliadau a gwybodaeth am bwy sy'n gymwys yn ateb sydd wedi cael ei fabwysiadu gan lawer.

Yr wyf wedi gofyn i'm swyddogion edrych ar adroddiadau diweddar am brydau ysgol a rhoi cyngor imi er mwyn imi gael ystyried beth y mae angen i Lywodraeth y Cynulliad ei wneud yng ngoleuni'r canfyddiadau, os oes angen iddi weithredu o gwbl.

### Cyllideb y Gweinidog

**Alun Cairns:** Beth yw'r tanwariant neu'r gorwariant diweddaraf/tebygol o ran cyllideb y Gweinidog ar gyfer y flwyddyn ariannol bresennol? (WAQ29824)

**Jane Davidson:** Mae'r lefelau gwario cyfredol yn dangos y bydd y gwariant dros y flwyddyn lawn yn agos at y ddarpariaeth derfynol yn y gyllideb ar gyfer fy mhortffolio i.

### Gwisg Ysgol

**Mark Isherwood:** A wnaiff y Gweinidog baratoi canllawiau i ysgolion Cymru i egluro'r sefyllfa o ran caniatáu i ferched ysgol wisgo trowsus fel rhan o'u gwisg ysgol? (WAQ29838)

**Jane Davidson:** Mater i gyrff llywodraethu'r ysgolion yw penderfyniadau ynglŷn â chynnwys gwisgoedd ysgol. Byddaf yn cyhoeddi canllawiau drafft ar wisg ysgol at ddibenion ymgynghori ym mis Rhagfyr. Mae'n ymdrin â'r angen i ysgolion roi sylw priodol i gydraddoldeb yn y ffordd y maent yn trin bechgyn a merched a disgyblion o gefndiroedd ethnig a chrefyddol gwahanol yn eu polisïau ynghylch gwisgoedd ysgol.

### Hebryngwyr Ysgol

**Alun Cairns:** Pa gamau archwilio sy'n rhai eu cymryd mewn perthynas ag hebryngwyr cyn iddynt fedru cyflawni'u dyletswyddau mewn tacsis a ariannwyd gan yr awdurdodau addysg lleol? (WAQ29877)

**Alun Cairns:** Pa ganllawiau sydd yn eu lle ar gyfer hebryngwyr i blant sy'n teithio i ysgolion mewn tacsis a ariannwyd gan yr awdurdodau addysg lleol? (WAQ29878)

**Alun Cairns:** Pa gamau diogelu sydd yn eu lle i gadw llygad ar y defnydd o hebryngwyr ysgol mewn tacsis a ariennir gan arian cyhoeddus? (WAQ29880)

**Jane Davidson:** Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi cyhoeddi canllawiau swyddogol diffiniol i gyflogwyr ar atal pobl anaddas rhag ymgymryd ag unrhyw rôl gyda phlant a phobl ifanc o fewn y gwasanaeth addysg. Mae Cylchlythyr 34/02, a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2002, yn amlinellu manylion yr archwiliadau cyn-penodi y dylid eu cynnal ar yr holl staff a fydd yn dod i gysylltiad â phlant ac yn egluro rôl y Swyddfa Cofnodion Troseddol. Mae i'w weld ar:
http://www.cymru.gov.uk/subieducationtraining/content/circulars/3402/child-protection-w.pdf.

Mae canllawiau pellach am rôl gwirfoddolwyr o fewn y gwasanaeth addysg ar gael ar http://www.cymru.gov.uk/subieducationtraining/content/circulars/criminal-records-w.pdf.

Yr awdurdodau addysg lleol sy'n gyfrifol am sicrhau bod disgyblion sydd â hawl i gludiant rhad ac am ddim rhwng y cartref a'r ysgol yn teithio mewn diogelwch a chysur rhesymol. Wrth ddarparu cludiant o'r fath, dylai'r awdurdodau addysg lleol ystyried a oes rhaid defnyddio hebryngwyr.

**Cludiant i'r Ysgol**

**Alun Cairns:** Beth yw'r cam diweddaraf yn yr adolygiad sy'n cael ei gynnal ar gludiant i'r ysgol? (WAQ29879)

**Jane Davidson:** Mae'r Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes wedi penderfynu edrych ar y mater hwn. Mater i'r Pwyllgor yw ei amseriad. Mae'r mater hefyd i fod i gael ei drafod yn y dyfodol agos gan is-bwyllgor y Cabinet ar blant a phobl ifanc.

**Ysgol Gynradd Gatholig Rufeinig Santes Fair yr Angylion, Cwmbrân**

**William Graham:** O ran WAQ28256, a wnaiff y Gweinidog drefnu ymweliad ag Ysgol Gynradd Gatholig Rufeinig Santes Fair yr Angylion, Cwmbrân? (WAQ30051)

**Jane Davidson:** Os caf wahoddiad ffurfiol i ymweld â'r ysgol gan y pennaeth neu'r corff llywodraethu, byddwn wrth fy modd yn gwneud hynny.

**Trefnu Ymweliad**

**William Graham:** O ran WAQ28256, a yw'r Gweinidog wedi trefnu ymweliad ag ysgol yn Nhor-faen? (WAQ30052)

**Jane Davidson:** Nid oes gennyf wahoddiadau yn sefyll ar hyn o bryd. Cynhaliwyd fy ymweliad diwethaf ag ysgol yn Nhor-faen ar 13 Tachwedd pan ymwelais ag Ysgol Gyfun Tyllgoed, Cwmbrân.

**Cymorth i Ysgolion Bach**

**Nick Bourne:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y cymorth y mae'n ei roi i ysgolion bach? (WAQ30054)

**Jane Davidson:** Fy nod yw cefnogi safonau addysgol uchel ym mhob ysgol, boed yn fach neu'n fawr. Yr ydym wedi cyflwyno grant arbennig (£2 filiwn yn 2002-03 a £3.5 miliwn yn 2003-04) i helpu ysgolion bach a gwledig i ddatblygu ffyrdd arloesol o weithio gyda'i gilydd, megis drwy rwydweithio technoleg gwybodaeth a ffederaleiddio anffurfiol. Gellir defnyddio'r grant hefyd i ddarparu cymorth gweinyddol i benaethiaid, a gall hynny fod yn help neilltuol i benaethiaid ysgolion bach, sydd yn aml ag amserlen ddysgu drom, yn ogystal â'u cyfrifoldebau rheoli ac arwain.

### Ysgolion Gwledig yn y Canolbarth

**Mick Bates:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar ddyfodol ysgolion gwledig yn y Canolbarth? (WAQ30055)

**Jane Davidson:** Deallaf fod awdurdod addysg lleol Powys wedi bod yn ymgynghori ynghylch dyfodol wyth ysgol wledig, ond nad yw wedi penderfynu eto pa un i fwrw ymlaen â chynigion statudol i'w had-drefnu neu eu cau. Os bydd yn penderfynu cyhoeddi cynigion a bod gwrthwynebiad i'r rhain yn lleol, daw'r mater ger fy mron i, i mi benderfynu arno. Wrth ystyried materion o'r fath, yr wyf yn ystyried yr holl ffactorau sy'n cael eu dwyn i'm sylw, gam gynnwys barn y rhieni. Yr wyf hefyd bob amser yn chwilio am dystiolaeth fod dewisiadau amgenach na chau wedi cael eu hystyried. Rhaid i unrhyw achos o blaid cau ysgol wledig fod yn gryf a rhaid iddo fod er lles addysgol gorau disgyblion yr ardal.

### Plant â Nam ar eu Clyw

**Ann Jones:** Yn sgil ei hatebion i WAQ29070 a WAQ29071, pa gynlluniau sydd gan y Gweinidog i roi canllawiau ar lefel safonol y gwasanaeth sy'n ofynnol er mwyn sicrhau bod plant yng Nghymru y nodir bod nam ar eu clyw'n cael cymorth addysgol priodol? (WAQ30057)

**Jane Davidson:** Mae dogfen ymgynghori, 'Gwasanaethau Addysgol i Blant a Phobl Ifanc â Nam ar eu Clyw yng Nghymru', yn cael ei dosbarthu i'r awdurdodau addysg lleol, yr ysgolion a phartïon eraill sydd â buddiant yn y mater yr wythnos hon. Nod y ddogfen yw:

- tynnu sylw at gryfderau a gwendidau yn y ddarpariaeth gyfredol, o enedigaeth hyd at 19 oed;
- gwneud argymhellion ar sail canfyddiadau'r arolwg;
- cynnig safonau gofynnol o ran rhagoriaeth yn y modd y cyflenwir gwasanaethau o ansawdd uchel yng Nghymru; ac
- awgrymu dulliau amgen o gyflenwi'r ddarpariaeth yn y dyfodol drwy gydweithredu rhanbarthol rhwng y gwasanaethau sy'n bodoli.

Fel rhan o'r broses ymgynghori, bwriadwn gynnal cynhadledd yn yr Wyddgrug ar 4 Rhagfyr. Cyn gynted ag y bydd yr ymatebion wedi dod i law, byddaf yn ystyried cyhoeddi canllawiau yn gynnar y flwyddyn nesaf.

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad

### Cyllideb y Gweinidog

**Alun Cairns:** Beth yw'r tanwariant neu'r gorwariant diweddaraf/ tebygol o ran cyllideb y Gweinidog ar gyfer y flwyddyn ariannol bresennol? (WAQ29823)

**Y Gweinidog dros yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad (Carwyn Jones):** Mae'r lefelau gwario cyfredol yn dangos y bydd y gwariant dros y flwyddyn lawn yn agos at y ddarpariaeth derfynol yn y gyllideb ar gyfer fy mhortffolio i.

### Lleihau Gollyngiadau Gwastraff

**Rhodri Glyn Thomas:** A wnaiff y Gweinidog ddatgan sut y bydd cynnig Asiantaeth yr Amgylchedd iddi beidio â bod yn ofynnol i weithredu'r astudiaeth modd mwyaf ymarferol, ac i ganiatáu gollyngiadau o 130 TBq y flwyddyn yn lleihau gollyngiadau gwastraff ac yn sicrhau bod ymbelydredd mor isel ag sy'n rhesymol bosibl? (WAQ29832)

**Carwyn Jones:** Mae Adran 9.3.12 o'r ddogfen benderfynu arfaethedig, a gyhoeddwyd gan Asiantaeth yr Amgylchedd, yn nodi'r egwyddorion y mae wedi'u defnyddio wrth osod cyfyngiadau ar ollyngiadau

ymbelydrol. Byddaf yn defnyddio'r wybodaeth hon a gwybodaeth arall i benderfynu a ddylwn ymyrryd drwy ddefnyddio fy mhwerau fy hun o dan Ddeddf Sylweddau Ymbelydrol 1993 yng nghyswllt y penderfyniad arfaethedig hwn.

### Gwastraff Hylif Tritium Ymbelydrol sy'n Deillio o Amersham

**Rhodri Glyn Thomas:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar adroddiad 'Radioactivity in Food and the Environment 2002—RIFE 8', a gyhoeddwyd ar y cyd gan y Cynulliad Cenedlaethol ar 31 Hydref, sy'n datgan bod y gwastraff hylif tritium ymbelydrol sy'n deillio o Amersham wedi disgyn i lai na 60 TBq yn 2002 a bod astudiaeth modd mwyaf ymarferol y cwmni yn dangos y gellir gostwng y ffigur hwnnw 40 y cant ymhellach? (WAQ29833)

**Carwyn Jones:** Croesawaf gyhoeddi'r adroddiad hwn gan Asiantaeth yr Amgylchedd, yr Asiantaeth Safonau Bwyd, Asiantaeth Gwarchod Amgylchedd yr Alban a Gwasanaeth Amgylcheddol a Threftadaeth Gogledd Iwerddon. Mae adroddiad RIFE-8 yn darparu data am ollyngiadau, gan ddynodi a weithredwyd argymhellion yr astudiaeth o'r modd mwyaf ymarferol. Ar hyn o bryd mae Amsersham plc yn sicrhau gostyngiad o 40 y cant mewn gwastraff tritium. Mae Amersham ccc yn datblygu prosiect paragon i ddal ac ailgylchu gwastraff a disgwylir i hynny arwain at ostyngiadau pellach yn y gollyngiadau pan fydd y prosiect wedi'i gwblhau.

### Cais Cynllunio ar gyfer Church Lane, Llanymddyfri

**Rhodri Glyn Thomas:** A wnaiff y Gweinidog ddatgan a fydd y cais cynllunio a alwyd i mewn ar gyfer Church Lane, Llanymddyfri yn destun ymchwiliad cyhoeddus? (WAQ29834)

**Carwyn Jones:** Mae penderfyniadau ynglŷn â'r broses o benderfynu a ddylid galw ceisiadau cynllunio i mewn yn cael eu dirprwyo i'r arolygiaeth gynllunio. Penderfynir pa un a fydd y cais arbennig hwn yn destun ymchwiliad cyhoeddus, gwrandawiad neu gyfnewid sylwadau ysgrifenedig ar sail dyfarniad ynglŷn â natur a swmp y gwrthwynebiadau, a natur y cais.

### Hysbysiadau Symud Cerbydau Wedi 24 Awr

**Rhodri Glyn Thomas:** Pa ystyriaeth y mae'r Gweinidog wedi'i rhoi i adolygu'r ddeddfwriaeth ar gyfer hysbysiadau i symud cerbydau a adawyd a fydd yn galluogi awdurdodau lleol i fabwysiadu system o hysbysiadau symud 24 awr? (WAQ29916)

**Carwyn Jones:** Mae Llywodraeth y DU wedi cytuno i drosglwyddo inni'r pwerau heddlu perthnasol o dan Ddeddfau Traffig y Ffyrdd i gwtogi'r cyfnod symud i 24 awr mewn amgylchiadau lle bo cerbyd yn y cyfryw gyflwr fel y dylid ei ddinistrio. Bydd y Cynulliad yn adolygu'r rheoliadau heddlu perthnasol yr un pryd â'r rheoliadau awdurdodau lleol fel eu bod yn cyd-fynd â'i gilydd. Gan ddisgwyl i'r pwerau gael eu trosglwyddo, byddwn yn ymgynghori â'r rhanddeiliaid yn fuan. Mae trafodaethau wedi cael eu cynnal yn barod gydag adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig a chytunwyd ar y cwtogi hwn ar gyfnodau rhybudd yng Nghymru i gyd-fynd â'r cyfnodau a fu mewn grym yn Lloegr er mis Ebrill 2003.

## Cwestiynau i'r Gweinidog Cyllid

### Etholiadau yng Nghymru

**Peter Black:** Pa sylwadau y mae'r Gweinidog wedi'u gwneud ynglŷn â chynnal etholiadau yng Nghymru ar 10 Mehefin 2004 drwy bleidlais bost? (WAQ29797)

**Y Gweinidog Cyllid (Sue Essex):** Mae cynnig Llywodraeth Cynulliad Cymru i gyfuno etholiadau lleol ac Ewropeaidd 2004 yn dal yn destun ymgynghori. Mae rhan o'r ymgynghori hwnnw yn gofyn am farn pobl ynghylch rhoi dulliau etholiadol peilot ar waith. Mae'r Prif Weinidog wedi ysgrifennu at y

Comisiwn Etholiadol yn gofyn iddo ystyried argymell i'r Arglwydd Ganghellor y dylai Cymru gael ei dewis fel rhanbarth peilot ar gyfer etholiadau cyfun ar sail pleidlais bost yn unig. Rhaid i'r Comisiwn Etholiadol wneud ei argymhellion i'r Arglwydd Ganghellor erbyn 8 Rhagfyr.

**Pleidlais Bost ar gyfer Etholiadau**

**Peter Black:** Beth yw'r amserlen ar gyfer cyhoeddi penderfyniad ar bleidlais bost i Gymru gyfan ar gyfer etholiadau 10 Mehefin 2004? (WAQ29798)

**Sue Essex:** Mae penderfyniad y Comisiwn Etholiadol o ran pa ardaloedd y mae wedi eu hargymell i gynnal treialon etholiadol a'r dull pleidleisio arbrofol a ddewiswyd i fod i gael ei gyhoeddi erbyn 8 Rhagfyr. Erbyn hynny, bydd ymgynghoriad y Cynulliad ynghylch y cynnig i gyfuno'r etholiadau lleol ac Ewropeaidd a'r cyfle i fynegi barn am gynlluniau peilot hefyd wedi cael ei gwblhau.

**Etholiadau Llywodraeth Leol**

**John Griffiths:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar hynt y trefniadau ar gyfer yr etholiadau llywodraeth leol y flwyddyn nesaf? (WAQ29799)

**Sue Essex:** Cyfyngedig yw'r swyddogaethau sydd gan y Cynulliad o ran paratoi at etholiadau lleol gan nad yw hwn yn fater sydd wedi ei ddatganoli; cyfrifoldeb Swyddfa'r Dirprwy Brif Weinidog yw. Rhoddodd Deddf Llywodraeth Leol 2003 y pŵer i'r Cynulliad i newid dyddiad etholiadau lleol yng Nghymru ac yr ydym yn ymgynghori ynghylch y mater hwn. Mae'r Prif Weinidog wedi ysgrifennu at y Comisiwn Etholiadol yn gofyn iddo ystyried argymell i'r Arglwydd Ganghellor y dylai Cymru gael ei dewis fel rhanbarth peilot ar gyfer etholiadau cyfun ar sail pleidlais bost yn unig. Yn ogystal, mae swyddogion y Cynulliad ar y cyd â'r Comisiwn Etholiadol yn trefnu seminar ar gyfer y rhai sy'n ymwneud â materion etholiadol er mwyn hyrwyddo'r arferion gorau ac adeiladu ar y gwersi a ddysgwyd o etholiadau'r Cynulliad.

**Dyfodol Cynghorau Cymuned**

**Nick Bourne:** A wnaiff hi ddatganiad ar yr adolygiad i ddyfodol cynghorau cymuned yng Nghymru? (WAQ29802)

**Sue Essex:** Mae adroddiad terfynol yr astudiaeth ymchwil i rôl a swyddogaethau cyngor bro a thref yng Nghymru a'u potensial i'r dyfodol, ynghyd ag adroddiad cryno, yn cael ei ddosbarthu i'r holl gynghorau bro a thref, y cynghorau sir a bwrdeistref sirol, a chyrff eraill sydd â buddiant yn y mater, ar hyn o bryd. Daw'r cyfnod ymgynghori i ben ar 27 Chwefror. Bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ymateb yn ffurfiol i'r adroddiad ar ôl i'r cyfnod ymgynghori ddod i ben.

**Codiadau i'r Dreth Gyngor yng Ngwynedd**

**Lisa Francis:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y codiadau i'r dreth gyngor yng Ngwynedd? (WAQ29803)

**Sue Essex:** Y cynghorau lleol, nid y Cynulliad, sy'n gyfrifol am benderfynu'n derfynol ar lefelau eu treth gyngor. Yn 2003-04, yr oedd y cynnydd cyffredinol yn y dreth gyngor yng Ngwynedd yn 10 y cant, sef fymryn yn uwch na chyfartaledd Cymru gyfan ar 9.8 y cant.

**Tan-gofrestru Pleidleiswyr**

**Ann Jones:** Pa drafodaethau y mae hi wedi'u cael â'r comisiwn etholiadol o ran tan-gofrestru pleidleiswyr yn yr ardaloedd etholiadol lleiaf breintiedig yng Nghymru? (WAQ29804)

**Sue Essex:** Mae'r Comisiwn Etholiadol wedi adolygu llawer o agweddau yn ymwneud â than-gofrestru pleidleiswyr fel rhan o'i adroddiad statudol am etholiadau'r Cynulliad, sydd i gael ei gyhoeddi ar 19 Tachwedd. Efallai, felly, y bydd ei adroddiad yn gwneud rhai argymhellion ynglŷn â chofrestru etholiadol yng Nghymru.

Bydd swyddogion y Cynulliad yn gweithio gyda'r Comisiwn Etholiadol ac eraill i annog awdurdodau lleol i rannu'r arferion gorau yn y broses etholiadol, wrth baratoi ar gyfer yr etholiadau lleol ac Ewropeaidd yn 2004.

### Cynghorwyr Posibl

**Val Lloyd:** A wnaiff y Gweinidog roi manylion am unrhyw fentrau ar gyfer ehangu'r sylfaen boblogaeth y gellid tynnu darpar Gynghorwyr ohoni? (WAQ29805)

**Sue Essex:** Yn dilyn yr adroddiadau gan Brifysgol Birmingham (adroddiad Hall) a'r Comisiwn ar Drefniadau Etholiadol Llywodraeth Leol yng Nghymru (adroddiad Sunderland), rhoddwyd nifer o fentrau ar waith yng nghyd-destun ehangu cyfranogiad mewn llywodraeth leol, ac mae hynny'n parhau.

Fel yr argymhellwyd yn adroddiad Hall, cymeradwyodd y Cynulliad strwythur newydd o lwfansau cynghorwyr y llynedd a oedd, am y tro cyntaf, yn cynnwys cyflwyno lwfansau dibynyddion, fel bod cynghorwyr sydd â phlant neu oedolion dibynnol yn gallu cael eu digolledu am y gost o gael rhywun i ofalu amdanynt tra maent hwy ar fusnes cyngor. Argymhellodd Hall hefyd ddyfarndaliadau am wasanaeth yn y gorffennol, yn dilyn cynllun cyffelyb llwyddiannus yn Iwerddon yn 1999, fel modd o greu seddau gwag (yn ogystal â gwobrwyo cynghorwyr am flynyddoedd maith o wasanaeth cyhoeddus).

Yn ychwanegol at hynny, mae Llywodraeth y Cynulliad wedi bod yn gweithio, ac mae'n parhau i weithio, gydag Asiantaeth Llywodraeth Leol Cymru i hyrwyddo amryw o gynlluniau sydd wedi'u bwriadu i ehangu cyfranogiad. Mae'r rhain yn cynnwys llenyddiaeth a chyfres o seminarau a fwriadwyd i annog ymgeiswyr mewn etholiadau lleol yn ogystal â deunydd addysgol i godi ymwybyddiaeth o lywodraeth leol a'r angen i bleidleisio. Darperir pecynnau addysgol ar gyfer ymgeiswyr a chynghorwyr newydd.

Yn olaf, bydd y cynghorau partneriaeth yn ystyried pa fentrau y gellir eu tywys yn eu blaen i annog cyflogwyr i ryddhau staff ar gyfer gwasanaeth cyhoeddus ac i'w gwneud yn haws iddynt wneud hynny.

### Cyllideb y Gweinidog

**Alun Cairns:** Beth yw'r tanwariant neu'r gorwariant diweddaraf/tebygol o ran cyllideb y Gweinidog ar gyfer y flwyddyn ariannol bresennol? (WAQ29827)

**Sue Essex:** Mae'r lefelau gwario cyfredol yn dangos y bydd y gwariant dros y flwyddyn lawn yn agos at y ddarpariaeth derfynol yn y gyllideb ar gyfer fy mhortffolio i.

### Cyllideb y Cynulliad

**Alun Cairns:** Beth yw'r tanwariant neu'r gorwariant diweddaraf/tebygol o ran cyllideb y Cynulliad ar gyfer y flwyddyn ariannol bresennol? (WAQ29828)

**Sue Essex:** Mae'r lefelau gwario cyfredol yn dangos y bydd y gwariant dros y flwyddyn lawn yn agos at y ddarpariaeth derfynol yn y gyllideb.

### Parcio Beiciau yn Adeilad Newydd y Cynulliad

**Jenny Randerson:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ynghylch y ddarpariaeth ar gyfer parcio beiciau yn adeilad newydd y Cynulliad? (WAQ29837)

**Jenny Randerson:** A wnaiff y Gweinidog egluro pa ddarpariaeth a wnaethpwyd ar gyfer parcio beiciau yn Adeilad newydd y Cynulliad? (WAQ29885)

**Sue Essex:** Mae'r Cynulliad yn ymdrechu i sicrhau gradd 'ragorol' o dan ddull asesu amgylcheddol y Sefydliad Ymchwil Adeiladu yng nghyswllt adeilad newydd y Cynulliad. Mae'r asesiad hwn yn gwerthuso yn erbyn amryw o feini prawf, yn cynnwys polisi trafnidiaeth werdd y sefydliad a'r cyfleusterau a ddarperir.

Mae'r cynlluniau yn cynnwys darparu rheseli beiciau i ddal hyd at 50 o feiciau ar hyd Pierhead Street ar gyfer aelodau o'r cyhoedd sy'n ymweld â'r Cynulliad a bae Caerdydd yn gyffredinol. Mae'r rheseli hyn yn ychwanegol at y 30 o reseli beiciau a ddarperir ar hyn o bryd ym maes parcio diogel y Cynulliad ar gyfer staff ac Aelodau yn Nhŷ Crucywel.

### Gweinyddu'r Dreth Gyngor

**David Lloyd:** Beth oedd cyfanswm costau gweinyddu (a) y dreth gyngor a (b) budd-daliadau'r dreth gyngor i awdurdodau lleol yn ystod 2002-03? (WAQ29848)

**Sue Essex:** Mae'r wybodaeth sydd ar gael oddi wrth awdurdodau lleol Cymru yn dangos eu bod wedi cyllidebu i wario £15.4 miliwn ar gasglu'r dreth gyngor a £10.5 miliwn ar weinyddu budd-daliadau'r dreth gyngor yn 2002-03. Mae hynny'n cymharu â'r gwariant gwirioneddol a gofnodwyd yn 2001-02 o £16.3 miliwn ar gasglu'r dreth gyngor a £10.6 miliwn ar weinyddu budd-daliadau'r dreth gyngor.

### Gyrwyr Tacsi

**Alun Cairns:** Pa ganllawiau sydd yn eu lle ar gyfer yr awdurdodau lleol o ran y berthynas rhyngddynt a chynrychiolwyr gyrwyr tacsi? (WAQ29881)

**Sue Essex:** Mae hwn yn fater a gadwyd yn ôl gan mai is-adran bysiau a thacsis yr Adran Drafnidiaeth sy'n gyfrifol am bolisi yn ymwneud â thacsis. Mae gan Lywodraeth y Cynulliad gyfrifoldeb cyfyngedig i gadarnhau is-ddeddfau cerbydau hacni a chymeradwyo cyfuno parthau tacsis. Nid oes canllawiau ffurfiol wedi'u sefydlu, ond cefais sicrwydd fod swyddogion yr Adran Drafnidiaeth yn annog yr awdurdodau lleol i ymgynghori â'r diwydiant tacsis ar bob cyfle.

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol

### Arenneg Bediatrig

**Leighton Andrews:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar arenneg bediatrig yn ne Cymru? (WAQ29649)

**Y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (Jane Hutt):** Ar hyn o bryd darperir gwasanaethau arenneg i blant de Cymru drwy drefniant partneriaeth rhwng Ysbyty Athrofaol Cymru ac Ysbyty Plant Bryste.

Bydd safonau, llwybrau a rhwydweithiau clinigol sy'n cael eu rheoli, i Gymru gyfan, yn cael eu datblygu fel rhan o'r prosiect gwasanaethau arbenigol i blant a phobl ifanc. Y mae'r prosiect yn y cyfnod cynllunio ar hyn o bryd, a bydd rheolwr y prosiect yn cydweithio mewn partneriaeth â Chomisiwn Iechyd Cymru, cyfarwyddwr y Gwasanaethau Gofal Iechyd i Blant a Phobl Ifanc a'r holl randdeiliaid allweddol. Bydd cadeirydd a gweithgor yn cael eu penodi ar gyfer y grŵp arenneg (megis ag i bob arbenigedd).

Ar hyn o bryd yr ydym yn gweithio gyda'r holl randdeiliaid a chyda Chymdeithas Arenneg Bediatrig Prydain i sefydlu gwasanaeth cynaliadwy a theg, o ansawdd uchel, ar gyfer plant de Cymru, ac mae cyfarfod cychwynnol yn cael ei drefnu.

**Llawdriniaethau a Ganslwyd**

**Rhodri Glyn Thomas:** Sawl llawdriniaeth a gafodd ei chanslo ers diwedd mis Rhagfyr 2002? (WAQ29831)

**Jane Hutt:** Rhwng diwedd mis Rhagfyr 2002 a diwedd mis Medi 2003, cynhaliodd y gwasanaeth iechyd gwladol yng Nghymru dros 160,000 o lawdriniaethau. Gohiriwyd neu ganslwyd 33,644 o lawdriniaethau. O'r rhain, gohiriwyd 46 y cant gan y claf, gohiriwyd 16 y cant gan yr ysbyty gan nad oedd y claf mewn cyflwr priodol i gael llawdriniaeth, a gohiriwyd 37 y cant gan yr ysbyty am nifer o resymau anghlinigol, megis bod angen llawdriniaeth ar gleifion brys, y rhestrau llawdriniaeth yn rhedeg yn hwyr ac yn y blaen. Cafodd cyfran fawr o'r llawdriniaethau hyn eu gohirio gyda mwy nag wythnos o rybudd, a olygai bod modd ailneilltuo'r slot yn y theatr i gleifion eraill.

**Nifer yr Apwyntiadau a Gollwyd**

**Val Lloyd:** A all y Gweinidog ddarparu manylion ynghylch apwyntiadau cleifion allanol a gollwyd yn ystod y flwyddyn ddiwethaf o fewn Ymddiriedolaeth GIG Abertawe, ac a all amlinellu'r mesurau y mae'n eu cymryd i leihau nifer yr apwyntiadau a gollir? (WAQ29764)

**Jane Hutt:** Y cyfnod diweddaraf y mae gennym ffigurau methu â chadw apwyntiadau ar ei gyfer yw 30 Mehefin 2002 hyd at 31 Mawrth 2003. Ar draws yr ymddiriedolaeth gyfan, cofnodwyd nad oedd apwyntiadau'n cael eu cadw yn achos 10.9 y cant o apwyntiadau newydd a 12 y cant o apwyntiadau a oedd yn dychwelyd. Yr oedd y dadansoddiad, fesul maes, fel a ganlyn (apwyntiadau a oedd yn dychwelyd yn y cromfachau):

| | |
|---|---|
| Llawfeddygol | 10.8 y cant (13.8 y cant) |
| Meddygol | 13.7 y cant (13.4 y cant) |
| Trydyddol | 7.7 y cant (7.7 y cant) |
| Menywod a phlant | 8.1 y cant (16.8 y cant) |
| Iechyd meddwl | 30.9 y cant (22.9 y cant) |

Gyda'i gilydd, mae'r ffigurau hyn yn cynrychioli 40,244 o apwyntiadau a gollwyd dros gyfnod o naw mis. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru, drwy'r tîm arloesi mewn gofal, yn rhoi system trefnu apwyntiadau newydd ar waith i gleifion ar draws holl ymddiriedolaethau GIG Cymru. Mae'r drefn hon wedi gostwng lefel yr apwyntiadau a gollir i lai na 5 y cant yn gyson lle rhoddwyd hi ar waith.

Mae Ymddiriedolaeth GIG Abertawe yn un o dair ymddiriedolaeth nad ydynt eto wedi rhoi'r system newydd ar waith ar gyfer eu holl gleifion newydd. Mae'r tîm arloesi mewn gofal yn gweithio gyda'r ymddiriedolaeth i gyflymu'r gwaith o roi systemau lle mae'r cleifion yn trefnu eu hapwyntiadau ar waith o fewn yr ymddiriedolaeth, ac mae cynllun cyflwyno wedi cael ei ddatblygu a fydd yn golygu bod pob claf allanol newydd yn cael trefnu ei apwyntiad erbyn 31 Mawrth 2004.

**Achosion o MRSA**

**Nick Bourne:** A wnaiff y Gweinidog roi manylion ynghylch nifer yr achosion a gafwyd o MRSA yn cychwyn mewn ysbytai ardal yng Nghymru yn ystod y tair blynedd diwethaf, gan roi dadansoddiad o'r ffigyrau a gyhoeddir yn flynyddol? (WAQ29782)

**Jane Hutt:** Bu gan Gymru gynllun i roi gwybod am heintiau yn cychwyn mewn ysbytai ers nifer o flynyddoedd, ond amrywiol fu'r hybysu. Serch hynny, teimlid bod hwn yn gynllun buddiol ac, felly,

daeth y cynllun yn orfodol ym mis Gorffennaf 2003. Yn y polisi newydd, diffinnir cychwyn haint, at ddibenion hysbysu, gan y rheolau a ganlyn:

1. Unrhyw beth y mae'r tîm rheoli heintiau yn ei ystyried yn gychwyn haint.
2. Unrhyw ddigwyddiad yn arwain at sefydlu tîm rheoli haint ffurfiol.
3. Unrhyw ddigwyddiad yn arwain at gau ward/cyfyngu ar dderbyn cleifion.
4. Unrhyw ddigwyddiad yn arwain at ymarferiad hysbysiadau am gleifion.
5. Achosion lluosog sy'n gysylltiedig ag un ffynhonnell (claf, staff, bwyd/dŵr neu'r amgylchedd).

Mae nifer yr achosion o MRSA yn cychwyn yng Nghymru dros y blynyddoedd diwethaf fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| **2000** | 3 |
| **2001** | 3 |
| **2003** | 0 |
| **2003** | 3 |

Mae nifer y cleifion yr effeithiwyd arnynt pan dorrodd yr haint allan wedi amrywio o dri i 16, ac mae nifer y staff yr effeithiwyd arnynt wedi amrywio o ddim i saith. Gallai'r nifer yn 2003 godi, wrth gwrs, erbyn diwedd y flwyddyn.

### Strategaeth Iechyd Meddwl y Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol (Cynnydd)

**Val Lloyd:** A wnaiff y Gweinidog amlinellu hynt y gwaith a wnaed ers cyflwyno strategaeth iechyd meddwl y fframwaith gwasanaeth cenedlaethol? (WAQ29785)

**Jane Hutt:** Mae gwella'r gwasanaethau iechyd meddwl yng Nghymru yn un o brif flaenoriaethau strategol y Cynulliad, ac yr ydym wedi datblygu fframwaith gwasanaeth cenedlaethol fel arf allweddol i helpu i godi'r safonau gwasanaeth yn gyson ar draws Cymru, ac i ddarparu gwell canlyniadau i unigolion.

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi comisiynu Comisiwn Archwilio Cymru i gynnal adolygiad annibynnol a manwl o'r gwasanaethau iechyd meddwl i oedolion o oed gwaith yn ardal pob bwrdd iechyd lleol/awdurdod unedol yng Nghymru. Bydd hyn yn darparu gwybodaeth fanwl am y cynnydd a wnaed hyd yn hyn, a bydd yn sefydlu'r llinell sylfaen i wneud cynnydd pellach ohoni.

Ers cyhoeddi'r fframwaith gwasanaeth cenedlaethol ym mis Mai 2002, mae Llywodraeth y Cynulliad wedi cyhoeddi canllawiau i'r byrddau iechyd lleol ar gomisiynu gwasanaethau iechyd meddwl i oedolion o oed gwaith a gwasanaeth iechyd meddwl i blant a phobl ifanc. Mae hefyd wedi datblygu a chyhoeddi canllawiau ar ymdriniaeth y rhaglen ofal ac wedi rhoi rhaglen ymwybyddiaeth ar waith yn raddol ledled Cymru. Yr ydym hefyd wedi cefnogi sefydlu'r rhwydwaith gofal sylfaenol iechyd meddwl cyntaf erioed yng Nghymru, a Chymru oedd y cyntaf hefyd i benodi cyfarwyddwr iechyd meddwl. Yr ydym hefyd yn datblygu camau gweithredu i helpu i fynd i'r afael â'r stigma a'r gwahaniaethu yn eu herbyn y mae pobl â salwch meddwl yn eu hwynebu ac yn datblygu camau i roi mwy o rym i ddefnyddwyr gwasanaeth a gofalwyr.

### Strategaeth Iechyd Meddwl y Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol (Adnoddau)

**Val Lloyd:** A wnaiff y Gweinidog amlinellu'r adnoddau sydd wedi'u neilltuo ar gyfer rhoi strategaeth iechyd meddwl y fframwaith gwasaneth cenedlaethol ar waith? (WAQ29786)

**Jane Hutt:** Daw mwyafrif y gwariant iechyd ar wasanaethau iechyd meddwl o'r dyraniadau dewisol i'r byrddau iechyd lleol. Mae'r gwariant ar iechyd yn gyffredinol wedi cynyddu o £2.6 biliwn yn 1999-2000 i £3.8 biliwn yn 2003-04. Mae hynny'n lefel fuddsoddi na welwyd mo'i thebyg, a dylai helpu i sicrhau bod pob claf, yn cynnwys defnyddwyr y gwasanaeth iechyd meddwl, yn cael gwell gwasanaeth gan y GIG yng Nghymru.

Mae'r cyllid moderneiddio cyfalaf ar gyfer iechyd meddwl yn 2003-04 yn gyfanswm o £24 miliwn. Mae gwariant Comisiwn Iechyd Cymru ar wasanaethau iechyd meddwl arbenigol yn 2003-04 yn gyfanswm o £33 miliwn. O'r swm o fwy nag £11 miliwn o gyllid a dargedwyd i leihau anghydraddoldebau iechyd yn 2003-04, mae a wnelo oddeutu £1.5 miliwn â chynlluniau iechyd meddwl. O'r £9.85 miliwn a ddarparwyd drwy'r cynllun grant arbennig (hyblygrwydd) yn 2003-04, darparwyd bron i £2 filiwn ar gyfer cynlluniau iechyd meddwl. Yn 2003-04, mae cyllid capasiti a chwistrelliad cychwynnol gwerth bron i £7 miliwn wedl cael ei ddarparu'n ganolog ar gyfer prosiectau iechyd meddwl drwy'r cyllidebau iechyd a gofal cymdeithasol.

**Strategaeth Iechyd Meddwl y Fframwaith Gwasanaeth Cenedlaethol (Adnoddau'r Dyfodol)**

**Val Lloyd:** A wnaiff y Gweinidog ddyrannu mwy o adnoddau yn y dyfodol i helpu'r gwaith sy'n mynd rhagddo o weithredu strategaeth iechyd meddwl y fframwaith gwasanaeth cenedlaethol? (WAQ29787)

**Jane Hutt:** Caiff manylion dyraniadau dewisol i'r byrddau iechyd lleol ar gyfer y flwyddyn nesaf eu cyhoeddi dros y misoedd i ddod ynghyd â'r targedau a nodir yn y fframwaith gwasanaeth ac ariannol.

**Cyllideb y Gweinidog**

**Alun Cairns:** Beth yw'r tanwariant neu'r gorwariant diweddaraf/tebygol o ran cyllideb y Gweinidog ar gyfer y flwyddyn ariannol bresennol? (WAQ29825)

**Jane Hutt:** Mae'r lefelau gwario cyfredol yn dangos y bydd y gwariant dros y flwyddyn lawn yn agos at y ddarpariaeth derfynol yn y gyllideb ar gyfer fy mhortffolio i.

**Llai o Oedi wrth Drosglwyddo Gofal**

**Janet Ryder:** A wnaiff y Gweinidog egluro pa fesurau a gaiff eu pennu i ofalu bod y byrddau iechyd lleol yn cadw'r arian a ddarparwyd iddynt er mwyn sicrhau bod llai o oedi wrth drosglwyddo gofal? (WAQ29829)

**Jane Hutt:** Yr oedd yn ofynnol, yn ôl y cynlluniau a'r ceisiadau sydd wed'u derbyn a gyflwynwyd gan y byrddau iechyd lleol, eu bod yn asesu effaith y cyllid ac yn mesur y gostyngiad a gâi ei wireddu o ran oedi wrth drosglwyddo gofal, a hynny ar unwaith ac ar sail gynaliadwy. Mae'r wybodaeth hon yn cael ei defnyddio fel llinell sylfaen i fonitro perfformiad. Mae meini prawf perfformiad wedi cael eu datblygu, a gwneir y gwaith rheoli perfformiad o ran yr effaith a gaiff y cyllid ychwanegol gan swyddfeydd rhanbarthol y Cynulliad. Hysbyswyd y byrddau iechyd lleol am hynny wrth iddynt gyflwyno'u cynlluniau a, lle na wireddir y gostyngiadau yr ymrwymwyd iddynt yn y ceisiadau, gallai hynny arwain yn y pen draw at dynnu'r cyllid yn ôl.

**Cyllid ar gyfer Ymchwil Clinigol**

**Rhodri Glyn Thomas:** Faint o gyllid y mae'r Cynulliad yn ei ddarparu ar gyfer ymchwil clinigol a sut y mae hynny wedi newid ers 1999? (WAQ29830)

**Jane Hutt:** Darperir y rhan fwyaf o gyllid y Cynulliad ar gyfer ymchwil a datblygu sy'n ymwneud ag iechyd yng Nghymru drwy Swyddfa Cymru dros Ymchwil a Datblygu ym maes Iechyd a Gofal Cymdeithasol. Yn 2003-04, mae'r dyraniad rhagamcanedig sydd gan y swyddfa i gyllido ymchwil a datblygu sy'n ymwneud ag iechyd yn £16,690,000 o'i gymharu â £14,090,000 yn 1998-99. Dros y cyfnod hwn, yr oedd y cynnydd yn 18.5 y cant o'i gymharu â 1998-99 (£2,600,000).

Dyrannir tua 75 y cant o'r cyllid hwnnw i GIG Cymru fel cymorth i'r seilwaith ymchwil a datblygu ac fe'i defnyddir gan y rhai sy'n ei dderbyn i gynnal costau ymchwil clinigol ac anghlinigol. GIG Cymru sy'n gyfrifol am weinyddu'r cyllid o fewn ei ddyraniadau ac mae'n adrodd yn rheolaidd i Swyddfa Cymru dros Ymchwil a Datblygu ym maes Iechyd a Gofal Cymdeithasol ar sail y gwariant yn erbyn

meysydd blaenoriaeth allweddol. Nid oes gwybodaeth am y rhaniad rhwng gwariant ar ymchwil clinigol ac ymchwil anghlinigol yn cael ei chasglu'n ganolog.

Ymysg yr enghreifftiau o gynlluniau ymchwil a ariannir yn uniongyrchol gan Swyddfa Cymru dros Ymchwil a Datblygu o fewn y 25 y cant sy'n weddill o'r gyllideb lawn mae banc canser Cymru (£459,000 yn 2003-04) a rhwydwaith treialon canser Cymru (£260,000 yn 2003-04).

### Ysbyty Dinbych-y-pysgod

**Rhodri Glyn Thomas:** A wnaiff y Gweinidog roi adroddiad ar hynt yr ysbyty newydd 15 gwely yn Ninbych-y-pysgod sy'n cael ei gyllido'n gyhoeddus, ac a wnaiff hi gadarnhau faint o arian a gaiff ei neilltuo ar gyfer yr ysbyty newydd? (WAQ29843)

**Jane Hutt:** Mae'r achos busnes llawn am ailddarparu gwasanaethau yn Ninbych-y-pysgod wedi cael ei gyflwyno gan Ymddiriedolaeth GIG Sir Benfro a Derwen. Mae'r ddogfen hon yn cael ei hystyried gan y bwrdd buddsoddi cyfalaf ar hyn o bryd, a byddaf innau'n cael argymhelliad gan y bwrdd.

### Therapi Galwedigaethol

**David Lloyd:** Pa gamau y mae'r Gweinidog yn eu cymryd i annog recriwtio gweithwyr cymorth di-gymhwyster ym maes therapi galwedigaethol? (WAQ29844)

**Jane Hutt:** Yn gyffredinol, nid oes problem o ran recriwtio gweithwyr cymorth, ac mae llawer o waith wedi cael ei wneud i ddatblygu eu rôl. Mae gweithwyr cymorth wedi cael eu cynnwys yng nghylch gwaith Proffesiynau Iechyd Cymru ac mae ymarferiad ar y gweill ar hyn o bryd i sefydlu pa addysg a hyfforddiant sydd ar gael ar hyn o bryd i'r holl weithwyr cymorth yn y GIG.

Am flynyddoedd lawer, bu rhaglen therapi galwedigaethol ran-amser, a ddatblygwyd yn benodol er mwyn rhoi'r cyfle i weithwyr cymorth therapi galwedigaethol ennill cymhwyster proffesiynol. Bu'n ffordd lwyddiannus iawn o recriwtio i adrannau therapi galwedigaethol yng Nghymru. Denodd ymgyrch dychwelyd i ymarfer yn ddiweddar ddiddordeb oddi wrth weithwyr proffesiynol perthynol i iechyd, yn ogystal ag unigolion heb gymwysterau a oedd yn awyddus i weithio o fewn adrannau iechyd galwedigaethol. Mae LearnDirect wedi bod yn cynorthwyo'r ymgeiswyr gyda'u hymholiadau.

### Therapyddion Galwedigaethol

**David Lloyd:** Sut mae'r Gweinidog yn mynd i'r afael â mater recriwtio therapyddion galwedigaethol? (WAQ29845)

**Jane Hutt:** Penododd Llywodraeth Cynulliad Cymru ymgynghorydd recriwtio a chadw ar gyfer gweithwyr proffesiynol perthynol i iechyd yn 2002, a sefydlodd is-grŵp recriwtio a chadw therapyddion galwedigaethol i fabwysiadu ffordd gydgysylltiedig o ymdrin â materion recriwtio ar draws y maes iechyd a'r gwasanaethau cymdeithasol. Cynhaliwyd cynhadledd recriwtio a chadw ym mis Mawrth i gynorthwyo therapyddion galwedigaethol a rheolwyr gwasanaeth i rannu arferion da a'u galluogi i gyfrannu at weithdai, a allai fod yn sail i gynlluniau gweithredu lleol o ran recriwtio. Mae rhaglen dychwelyd i ymarfer yn cael ei gweithredu, gyda chymhellion megis hyfforddiant gloywi am ddim, bwrsariaethau a chostau gofal plant tra'n ailhyfforddi.

### Anhwylder Cydsymud Datblygiadol

**David Lloyd:** Pa gamau y mae'r Gweinidog wedi'u cymryd i godi ymwybyddiaeth o anhwylder cydsymud datblygiadol? (WAQ29846)

**Jane Hutt:** Ymdrinnir ag anghenion plant sydd ag anhwylder cydsymud datblygiadol yng nghyd-destun cyffredinol y fframwaith gwasanaeth cenedlaethol i blant. Nod cyffredinol y fframwaith yw sicrhau bod iechyd a lles pob plentyn a pherson ifanc cystal â phosibl, a'u bod yn cael cymorth i wireddu eu potensial.

**Nifer y Swyddi Gwag ar gyfer Deintyddion**

**Rhodri Glyn Thomas:** Faint o swyddi gwag sydd ar gyfer deintyddion ar hyn o bryd yng Nghymru a sut y gellid mynegi'r nifer hwn fel canran o'r holl swyddi deintyddion yng Nghymru? (WAQ29847)

**Jane Hutt:** Contractwyr annibynnol yw deintyddion o fewn y gwasanaeth deintyddol cyffredinol, nid gweithwyr cyflog i'r GIG. Maent o dan gontract i'r bwrdd iechyd lleol ac maent yn ymrwymo i ddarparu gofal cyffredinol o dan drefniadau'r GIG, ond maent yn rhydd i benderfynu faint o'u hamser y maent yn dymuno ei neilltuo i waith GIG a faint o gleifion, a pha gleifion, sydd ganddynt ar eu rhestrau GIG. O ganlyniad i'r trefniadau hyn, nid ydym yn cadw data am swyddi gwag. Ar 30 Medi 2002, fodd bynnaf, yr oedd cyfanswm o 1,015 o ddeintyddion yn gweithio fel contractwyr annibynnol yn y gwasanaeth deintyddol cyffredinol.

Caiff deintyddion o fewn y gwasanaeth deintyddol cymunedol, y cedwir data amdano'n ganolog, eu cyflogi gan ymddiriedolaethau GIG. Ar sail data am swyddi gwag yn y GIG, ar 31 Mawrth 2003, yr oedd nifer y swyddi a fu'n wag am dri mis neu fwy, wedi'u rhannu yn ôl arbenigedd, fel a ganlyn:

- un swydd wag (7.9 y cant o'r holl swyddi) ym maes llawdriniaeth y genau a'r wyneb
- 0.5 o swydd wag (5.8 y cant) mewn orthodonteg
- 0.4 o swydd wag (5.8 y cant) mewn deintyddiaeth adferol
- un swydd wag (6.9 y cant) yn y gwasanaeth iechyd deintyddol cymunedol.

**Taliadau Uniongyrchol Gorfodol i Bobl Oedrannus**

**Michael German:** A wnaiff y Gweinidog amlinellu'r amserlen benodol ar gyfer deddfwriaeth i gyflwyno'r taliadau uniongyrchol gorfodol i bobl oedrannus? (WAQ29883)

**Jane Hutt:** Bwriadaf i'r gorchymyn cychwyn angenrheidiol a'r rheoliadau taliadau uniongyrchol gael eu gwneud yn ystod mis Gorffennaf y flwyddyn nesaf. Dylai'r drefn i'w gwneud yn orfodol cynnig taliadau uniongyrchol i'r grwpiau sy'n gymwys ar hyn o bryd ddod i rym wedyn o fis Awst 2004. Dylai'r cynllun taliadau uniongyrchol gael ei ymestyn i bawb sy'n 65 neu'n hŷn, yr aseswyd bod ganddynt anghenion gofal, ddod i rym o fis Rhagfyr 2004. Ceir ymgynghori llawn am fanylion y newidiadau, a pharatoi gofalus ar eu cyfer.

**Ymgynghorydd Osteoporosis yn Ysbyty Brenhinol Gwent**

**William Graham:** A wnaiff y Gweinidog gadarnhau pa bryd y caiff ymgynghorydd osteoporosis ei recriwtio yn Ysbyty Brenhinol Gwent yng Nghasnewydd? (WAQ29884)

**Jane Hutt:** Nid yw'r wybodaeth y gofynnoch amdani yn cael ei chadw'n ganolog. Mater i Ymddiriedolaeth GIG Gofal Iechyd Gwent yw hwn yn bennaf.

**Cyfnodau Aros mewn Ysbytai**

**Leighton Andrews:** A wnaiff y Gweinidog restru'r ymddiriedolaethau iechyd sy'n perfformio orau o ran y cyfnodau aros byrraf yn yr ysbyty o ganlyniad i: a) Dermatoleg b) Trawma ac orthopedeg c) Llawdriniaeth gyffredinol d) Wroleg e) Gynecoleg f) Offthalmoleg g) Triniaeth ar y Clustiau, Trwyn a'r Gwddf h) Pediatreg i) Obstetreg? (WAQ29886)

**Jane Hutt:** Mae'r ystadegau a luniwyd am weithgareddau ysbyty, yn dangos y cyfnodau aros byrraf ar gyfartaledd rhwng mis Ebrill 2002 a mis Mawrth 2003 yn y meysydd hyn, fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| a) dermatoleg | Ymddiriedolaeth GIG Bro Morgannwg 8.8 diwrnod |

| | |
|---|---|
| b) trawma and orthopedeg | Ymddiriedolaeth GIG Sir Benfro a Derwen 5.6 diwrnod<br>(Nodwyd 1.1 diwrnod gan Ymddiriedolaeth GIG Gofal Iechyd Powys, oedd heb ysbyty dosbarth cyffredinol) |
| c) llawdriniaeth gyffredinol | Ymddiriedolaeth GIG Bro Morgannwg 4 diwrnod<br>(Nodwyd 1.2 diwrnod gan Ymddiriedolaeth GIG Gofal Iechyd Powys, oedd heb ysbyty dosbarth cyffredinol) |
| d) wroleg | Ymddiriedolaeth GIG Bro Morgannwg 3.4 diwrnod |
| e) gynaecoleg | Ymddiriedolaeth GIG Abertawe 2.1 diwrnod |
| f) offthalmoleg | Ymddiriedolaeth GIG Conwy a Sir Ddinbych 0.1 diwrnod |
| g) triniaeth ar y clustiau, y trwyn a'r gwddf | Ymddiriedolaeth GIG Ceredigion a'r Canolbarth 0.7 diwrnod |
| h) pediatreg | Ymddiriedolaeth GIG Gogledd Morgannwg 1.6 diwrnod |
| i) obstetreg | Ymddiriedolaeth GIG Caerdydd a'r Fro 1.6 diwrnod |

Mae'r ffigurau hyn yn adlewyrchu'r defnydd o welyau a chleifion mewnol, ond nid ydynt yn adlewyrchu cymhlethdod achosion.

**Gwasanaethau Meddygon Teulu y Tu Allan i Oriau Arferol ym Mhen-y-bont ar Ogwr**

**Peter Black:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar wasanaethau meddygon teulu y tu allan i oriau arferol ym Mhen-y-bont ar Ogwr? (WAQ30061)

**Jane Hutt:** Cyfrifoldeb y meddygon teulu yw trefnu darpariaeth y tu allan i oriau arferol ar gyfer eu cleifion, ac mae ganddynt ddyletswydd i sicrhau bod cleifion yn gallu cyrchu at a chael gwasanaethau meddygol digonol. Gall meddygon teulu ddewis cyflawni'r cyfrifoldeb hwn drwy gyflogi darparwyr eraill, megis gwasanaethau dirprwyo masnachol neu gwmnïau cydweithredol o feddygon teulu. Ym Mhen-y-bont ar Ogwr, mae tri darparwr yn darparu gwasanaethau y tu allan i oriau arferol: cwmni cydweithredol Pen-y-bont a'r Ogwr a'r cylch; gwasanaeth meddygon brys Maesteg a gwasanaeth meddygol brys Taf-Elái.

O dan y contract newydd am wasanaethau meddygol cyffredinol, o 31 Rhagfyr 2004, bydd y cyfrifoldeb am gomisiynu a, lle bo raid, ddarparu gwasanaeth y tu allan i'r oriau arferol yn trosglwyddo i'r byrddau iechyd lleol. Mae Bwrdd Iechyd Lleol Pen-y-bont ar Ogwr eisoes wedi cyflwyno cynllun drafft sy'n ymdrin â'r newidiadau o ran cyfrifoldeb a, phan fydd y dyraniadau ariannol wedi cael eu pennu ym mis Rhagfyr, bydd y bwrdd yn cyflwyno cynllun terfynol ar gyfer y dyddiad cau a bennwyd gan y Cynulliad, sef mis Ionawr 2004.

**Rali Geir Prydain (Damweiniau ar y Ffyrdd)**

**William Graham:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ynghylch nifer y bobl a gafodd driniaeth mewn ysbyty yn dilyn damweiniau ar y ffyrdd yng Nghymru yn ystod penwythnos Rali Geir Prydain? (WAQ30066)

**Jane Hutt:** Nid wyf yn ymwybodol o gynnydd yn nifer y damweiniau ar y ffyrdd lle'r oedd angen triniaeth yn yr ysbyty yn ystod penwythnos y rali. Mae'r rali wedi ennill ei phlwyf fel rhan o galendr chwaraeon Cymru, a dylid croesawu agwedd gyfrifol drwyddi draw y cystadleuwyr, y timau, y trefnwyr a'r gwylwyr yn y digwyddiad eleni.

**Taliadau Presgripsiwn**

**Ann Jones:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y manteision a ddaw i Gymru yn sgîl gwneud i ffwrdd â'r tâl am bresgripsiwn? (WAQ30068)

**Jane Hutt:** Unwaith y bydd y taliadau presgripsiwn wedi cael eu dileu, ni fydd unrhyw gleifion yn gorfod penderfynu pa un a allant fforddio meddyginiaeth sydd wedi cael ei rhagnodi ai peidio. Yn hytrach, byddant yn gallu dilyn cyngor clinigol os ydynt yn dymuno gwneud hynny. Bydd dileu'r taliadau yn cael gwared â rhwystrau ariannol sydd, ar hyn o bryd, yn atal pobl rhag rheoli eu salwch yn effeithiol yn y tymor hir. Bydd y polisi newydd yn cael gwared â'r hyn y bu Cymdeithas Feddygol Prydain yn ei alw'n dreth ar salwch ers tro byd.

## Cwestiynau i'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio

### Adfywio Dinas Abertawe

**Val Lloyd:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar yr adfywio a welwyd yn ddiweddar yn Ninas Abertawe, yn enwedig y datblygiad SA1? (WAQ29769) ***Trosglwyddwyd i'w ateb gan y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth.***

**Y Gweinidog dros Ddatblygu Economaidd a Thrafnidiaeth (Andrew Davies):** Mae datblygiad SA1 y Glannau, Abertawe, yn brosiect adfywio trefol gwerth £200 filiwn y mae Awdurdod Datblygu Cymru yn ymgymryd ag ef, gyda chymorth a chyllid oddi wrth Lywodraeth Cynulliad Cymru. Mae'r datblygiad defnydd cymysg yn cynnwys busnesau Technium 1 a 2 (gyda phwyslais ar sectorau seiliedig ar wybodaeth sy'n tyfu'n gyflym), unedau preswyl a hamdden yn ogystal â defnyddiau adwerthu, masnachol a sefydliadol lleol ac arbenigol. Mae SA1 yn cynnwys tir o amgylch doc Tywysog Cymru ac yn wynebu afon Tawe, ac elfen allweddol o'r datblygiad yw uno canol y ddinas â glan y dŵr. Cafodd cais i godi'r adeilad swyddfeydd cyntaf ar SA1 ei gyflwyno'n ddiweddar gan y cwmni datblygu eiddo o Lundain, Terrace Hill and Cirrus Properties. Nod y prosiect yw integreiddio gyda'r datblygiadau presennol a'r datblygiadau a ragwelir yn y ardal y glannau a chanol y ddinas, megis amgueddfa genedlaethol y glannau, a bod yn gefn iddynt.

### Ymddygiad Gwrthgymdeithasol (De Caerdydd a Phenarth)

**Lorraine Barrett:** Pa gamau y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn eu cymryd i fynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol yn Ne Caerdydd a Phenarth? (WAQ29774)

**Y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywio (Edwina Hart):** Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn annog partneriaethau diogelwch cymunedol ledled Cymru i gynnwys gweithredu ynghylch ymddygiad gwrthgymdeithasol yn eu cynllunio strategol.

### Cynllun Cydraddoldeb Hiliol y Cynulliad Cenedlaethol

**David Davies:** Beth oedd y gost o roi cynllun cydraddoldeb hiliol y Cynulliad Cenedlaethol ar waith? (WAQ29780)

**Edwina Hart:** Mae cynllun cydraddoldeb hiliol diwygiedig Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn mynd drwy gyfnod ymgynghori o dri mis ar hyn o bryd. Talwyd y costau cynhyrchu ac ymgynghori o'r llinell wariant 'hyrwyddo cydraddoldeb' yn y gyllideb, sydd wedi ei chynnwys ym mhrif grŵp gwariant 'gwasanaethau eraill y Cynulliad' ar hyn o bryd. Deallaf fod y gost hyd yma oddeutu £10,500.

### Gorchmynion Cyrffyw Plant yn y Mesur Ymddygiad Gwrthgymdeithasol

**Jocelyn Davies:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y gorchmynion cyrffyw plant yn y Mesur gwrthgymdeithasol? (WAQ29835)

**Edwina Hart:** Mae adran 37 o Ddeddf Pwerau'r Llysoedd Troseddol (Dedfrydu) 2000 eisoes yn caniatáu i lys wneud gorchymyn cyrffyw lle bo person yn ei gael yn euog o drosedd. Mater i Senedd y DU yw'r mesurau yn y Mesur Ymddygiad Gwrthgymdeithasol. Deallaf y bydd cymal 40 o'r Mesur yn newid y

ddarpariaeth bresennol yn ymwneud â goruchwylio a gorchmynion cyrffyw i gynyddu cyfnod posibl gorchymyn cyrffyw i droseddwr 10 oed ond iau nag 16 o dri mis i chwe mis. Bydd y ddeddfwriaeth newydd yn ei gwneud yn glir fod modd pennu gorchymyn cyrffyw a gorchymyn goruchwylio ar yr un pryd. Mae hefyd yn cynyddu'r cyfnod hwyaf y gallai fod yn ofynnol, o dan orchymyn goruchwylio, i droseddwr gydymffurfio â chyfarwyddiadau penodol y swyddog goruchwylio neu ofynion penodol y llys o ran gweithgareddau ac ati o 90 diwrnod i 180 diwrnod.

**Mesur Ymddygiad Gwrthgymdeithasol Arfaethedig**

**Jocelyn Davies:** A wnaiff y Gweinidog ddatganiad ar y trafodaethau y mae wedi'u cael ynghylch rhoi'r Mesur gwrthgymdeithasol arfaethedig ar waith yng Nghymru? (WAQ29836)

**Edwina Hart:** Yr wyf wedi bod yn rhoi sylw manwl i'r Mesur Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, yn enwedig gan mai mater i'r Cynulliad Cenedlaethol fydd penderfynu pa un i roi rhai darpariaethau ar waith yng Nghymru.

**Cronfa Datblygu Swyddfeydd Post**

**Leanne Wood:** Beth yw union natur adolygiad presennol y Gweinidog o'r gronfa datblygu swyddfeydd post? (WAQ29849)

**Leanne Wood:** A wnaiff y Gweinidog roi manylion yr amserlen ar gyfer yr adolygiad o'r gronfa datblygu swyddfeydd post? (WAQ29850)

**Leanne Wood:** Pa effaith gaiff yr adolygiad o'r gronfa datblygu swyddfeydd post ar ariannu'r cynllun? (WAQ29851)

**Leanne Wood:** Pa effaith gaiff yr adolygiad o'r gronfa datblygu swyddfeydd post ar y ceisiadau hynny a dderbyniwyd eisoes? (WAQ29852)

**Leanne Wood:** A wnaiff y Gweinidog ein sicrhau na fydd yr adolygiad o'r gronfa datblygu swyddfeydd post yn peryglu'r ceisiadau a dderbyniwyd eisoes? (WAQ29853)

**Edwina Hart:** Yr wyf wedi cyfarwyddo'r swyddogion i gloriannu a gwerthuso'r gronda datblygu swyddfeydd post yn gryno, gyda golwg ar symleiddio'r ffyrdd y'i rheolir ac y'i gweithredir, a'u gwneud yn gliriach. Cymerais y cam hwn oherwydd, ers lansio'r gronfa datblygu swyddfeydd post ym mis Tachwedd 2002, derbyniais nifer o sylwadau oddi wrth Aelodau Cynulliad a rhanddeiliaid allweddol, megis is-bostfeistri a'u cwsmeriaid, ynglŷn â'r broses o wneud ac asesu ceisiadau. Yr wyf hefyd yn awyddus i sicrhau bod effaith ein polisïau a'n rhaglenni ehangach yn cael eu cymryd i ystyriaeth yn llawn.

Darperais £2.5 miliwn ar gyfer y gronfa pan gafodd ei lansio. Ni fydd fy mhenderfyniad i sefydlu'r adolygiad hwn yn effeithio ar ariannu'r cynllun. Y nod yw cwblhau'r adolygiad erbyn diwedd y flwyddyn galendr hon, a bydd y ceisiadau a gyflwynwyd o dan gylch tri a chylch pedwar y gronfa yn cael eu hasesu ym mis Ionawr a mis Ebrill 2004, y naill a'r llall. Caiff pob cais o'r fath ei asesu megis cynt, ac yn unol â'r gofynion a'r trefniadau asesu i geisiadau a gyflwynwyd o dan gylchoedd un a dau. Tra'r wyf yn sylweddoli na fydd y ceisiadau yn cael eu hasesu mwyach yn unol â'r amserlenni a sefydlwyd yn wreiddiol, gallaf eich sicrhau mai'r unig effaith a gafodd yr adolygiad, a'r unig effaith y bydd yn ei chael, ar geisiadau unigol yw ymestyn y cyfnod asesu.

Yr wyf yn sylweddoli bod yr is-bostfeistri hynny sydd wedi cyflwyno ceisiadau o dan gylchoedd tri a phedwar yn wynebu anhwylustod, ac mae'n resyn am hynny. Fodd bynnag, mae'r cyfnod hwn o asesu a phwyso a mesur yn allweddol i lwyddiant y gronfa yn y dyfodol, ac yr wyf yn benderfynol o sicrhau'r budd a'r gwerth mwyaf posibl am arian o'r gwariant sydd ar gael imi.

**Arolygon Anghenion Tai**

**Janet Ryder:** Faint o siroedd sydd wedi cwblhau eu harolwg anghenion tai ac a yw canlyniadau'r arolygon hynny ar gael i'r cyhoedd? (WAQ29938)

**Edwina Hart:** Mae naw awdurdod lleol wedi cwblhau eu hasesiadau yn unol ag egwyddorion y canllawiau a gyhoeddwyd yn 1999 a chyda chymorth cyllid grant oddi wrth Lywodraeth Cynulliad Cymru. Mae chwe awdurdod lleol bron â chwblhau eu harolygon. Mae'r asesiadau ar gael i'r cyhoedd. Nid yw'r saith awdurdod sy'n weddill wedi cysylltu â Llywodraeth Cynulliad Cymru i gael cyllid, ond gwyddom fod sawl un ohonynt wedi ariannu astudiaethau yn gymharol ddiweddar drwy eu hadnoddau eu hunain yn llwyr.

**Arolygon Anghenion Tai**

**Janet Ryder:** Faint o alw am dai fforddiadwy sydd wedi'i amlygu ledled Cymru gan yr arolygon anghenion tai a gwblhawyd? (WAQ29939)

**Edwina Hart:** Mae'r arolygon sydd wedi cael eu cwblhau gyda chymorth cyllid oddi wrth Lywodraeth Cynulliad Cymru wedi cael eu seilio ar amryw o fethodolegau a rhagdybiaethau, er eu bod i gyd yn dilyn yr egwyddorion cyffredinol o ran arferion da a nodwyd yn y canllawiau a gyhoeddwyd yn 1999. Eu diben yw darapru gwybodaeth ar lefel yr awdurdodau lleol, neu lefel is, i hwyluso'r strategaethau tai lleol ac i bennu blaenoriaethau. Ni fyddai cyfuno'r canfyddiadau yn gwneud synnwyr felly.

**Hawliau Pobl Anabl**

**Gwenda Thomas:** A wnaiff y Gweinidog amlinellu'r hyn y mae Llywodraeth y Cynulliad yn ei wneud i hyrwyddo hawliau pobl anabl yng Nghymru? (WAQ30041)

**Edwina Hart:** Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn hyrwyddo hawliau pobl anabl drwy ei hymrwymiad i sicrhau bod materion cydraddoldeb yn rhan o brif ffrwd y gweithgaredd o fewn portffolio pob Gweinidog. Cynhwysir manylion yn ein hadroddiad blynyddol i'r Pwyllgor Cyfle Cyfartal. Yr wyf wedi rhoi addewid i'r Pwyllgor y byddaf, erbyn y gwanwyn nesaf, yn darparu adroddiad pellach ar ein cynigion i fwrw ymlaen i sefydlu cydraddoldeb ym mhrif ffrwd ein holl gweithgareddau.

**Rhaglen Addysg i Wrthsefyll Camddefnyddio Cyffuriau**

**Leanne Wood:** A yw'r rhaglen addysg i wrthsefyll camddefnyddio cyffuriau (DARE) a weithredir yng Nghymru wedi cael arian gan y Cynulliad Cenedlaethol, ac os ydyw, faint a gafodd ac i ba ddiben? (WAQ30072)

**Edwina Hart:** Nid yw'r rhaglen wedi cael unrhyw gyllid oddi wrth Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

**Cronfa Ddatblygu wedi'i seilio ar Asedau neu Gronfa Cyfalaf Menter**

**Leighton Andrews:** A yw'r Gweinidog wedi derbyn sylwadau ynghylch creu cronfa ddatblygu ar gyfer Cymru wedi'i seilio ar asedau neu gronfa cyfalaf menter, ac a wnaiff hi ddatganiad? (WAQ30104)

**Edwina Hart:** Mae'r swyddogion wedi derbyn cynnig oddi wrth Gymdeithas yr Ymddiriedolaethau Datblygu i sefydlu rhaglen fuddsoddi ar gyfer mentrau cymunedol, sy'n cynnwys cyllid i ddatblygu asedau. Caiff y cynnig ei ystyried yng nghyd-destun cynllun gweithredu mentrau cymdeithasol Llywodraeth y Cynulliad, yr ydym yn ymgynghori yn ei gylch ar hyn o bryd.